

# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

Rhifyn 497 · Mawrth 2019 · 50c



## Dathlu Dyfodol Newydd yn Noldafydd

Agorwyd adeilad newydd Clwb Rygbi Bethesda fis Mawrth gyda'r neges ei fod yn rhywbeth i'w fwynhau gan y gymuned gyfan.

Daeth criw o dros 300 o bobl i ddathlu'r agoriad swyddogol ar zil o Fawrth gyda'r tîm yn cael gem gyfartal 10 pwynt yr un yn erbyn Nant Conwy.

Mae'r clwb newydd wedi bod yn brosiect hynod o lwyddiannus ac wedi bod yn ymdrech fawr gan nifer o bobl yn Nyffryn Ogwen sydd wedi rhoi eu hamser, eu hegni a'u sgiliau i greu canolfan y gallwn ni oll fod yn falch iawn ohoni.

Buddsodwyd bron i hanner miliwn o bunnau yn yr adeilad newydd sy'n cynnwys ystafelloedd newid wedi eu hadnewyddu, bar, cegin, lolfa ac ystafelloedd i gynnal

digwyddiadau. Mae balconi hefyd yn mynd ar hyd blaen yr adeilad sy'n cynnig safbwynt gwych i wyllo'r timau lleol efo paned neu beint.

O fewn yr adeilad hefyd, mae swyddfeydd fydd yn cael eu defnyddio gan fusnesau lleol ac mae'r clwb yn awyddus fod yr adeilad yn cael i'w defnyddio at unrhyw beth sy'n fuddiol i'r gymuned leol ac nid rygbi yn unig. Yn barod mae 20 o grwpiau lleol yn defnyddio'r ystafelloedd ar gyfer bob math o weithgareddau.

Ar y cae, mae pethau yn edrych yn dda iawn i'r clwb gyda tîm cyntaf cryf a hefyd dros 200 o blant o wahanol oed yn hyfforddi ar Ddoldafydd bob wythnos.

Bu'r clwb newydd yn



freuddwyd i nifer o bobl a roddodd eu hamser i'r clwb dros y degawdau diwethaf ac roedd yr agoriad swyddogol yn gyfle i wynebau hen a newydd ddod at ei gilydd i ddathlu'r llwyddiant ac edrych ymlaen at y dyfodol.

Heb os, mae gan Bethesda y clwb rygbi gorau yng Ngogledd Cymru erbyn hyn ac mae hynny oherwydd bod pobl y dyffryn wedi gallu gweithio efo'i gilydd i wneud i'r freuddwyd ddod yn wir.

Diolch i baw a gyfrannodd ac edrychwn ymlaen at flynyddoedd maith o lwyddiant yn Noldafydd yn y dyfodol.

*Os hoffech gael manylion am ddefnyddio'r adeilad ar gyfer unrhyw achlysur, cysylltwch â Nia Davies yn y clwb*

## Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard

☎ 01248 602119

orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,  
Lôn Newydd Coetmor,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3DT ☎ 602440  
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH ☎ 601415  
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn  
Bedw, Rachub, Llanllechid  
LL57 3EZ ☎ 600872  
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3NN ☎ 600184  
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan  
Trystan Pritchard.

Y golygydd ym mis

Ebrill fydd

Neville Hughes,

Bryn Ffrydlas,

14 Ffordd Pant,

Bethesda, LL57 3PA.

01248 600853

E-bost: nev\_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn

**dydd Mercher, 3 Ebrill** os gwelwch  
yn dda.

Casglu a dosbarthu

**nos Iau, 18 Ebrill,**

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES

GWARANT Y BYDD UNRHYW

DDEUNYDD FYDD YN

CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD

CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Cyhoeddir gan

Bwyllgor Llais Ogwan @Llais\_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths

elgangriffiths@btinternet.com

☎ 01970 627916

Argraffwyd gan y Lolfa



Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel  
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno  
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth  
yn y siopau isod:

**Dyffryn Ogwen**

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

**Bangor**

Siop Forest

Siop Menai

Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards**Porthaethwy** Awen Menai**Rhiwlas** Garej BeranDyddiadur  
y Dyffryn

## Mawrth

- 16 Bore Coffi Eglwys Crist  
Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 -  
12.00.
- 22 Bingo a Gwerthiant Nwyddau  
harddwch. Clwb Criced Bethesda  
am 7.00.
- 23 Bore Coffi Eglwys St. Cedol,  
Pentir. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 25 Te Bach. Festri Carmel  
Llanllechid. 2.30 - 4.00.
- 26 Theatr Bara Caws yn cyflwyno  
COSTA BYW. Neuadd Ogwen am  
7.30.
- 26 Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes am 7.00.
- 27 Noson Goffi Madagascar. Festri  
Capel Bethlehem Talybont am 6.30.
- 29 Atgofion ar gân. Meddygfa  
Bethesda. 1.45 - 2.30
- 30 Bore Coffi Clwb Camera.  
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

## Ebrill

- 01 Merched y Wawr Tregarth. Sgwrs  
gan Ann Jones. Festri Shiloh am  
7.30.
- 02 Pwyllgor Eisteddfod D. Ogwen.  
Festri Jerwsalem am 7.30.
- 04 Sefydliad y Merched Carneddi.  
Gêm o boccia. Cefnfaes am 7.00
- 06 Bore Coffi Neuadd Talgai.  
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 11 Cymdeithas Jerwsalem.. Yng  
nghwmni Mari Gwilym. Y Festri  
am 7.00
- 13 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen.  
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 13 Marchnad Ogwen. Neuadd  
Ogwen. 9.30 - 1.00.
- 17 Bingo Pasg NSPCC. Clwb Criced  
am 7.00
- 18 Noson Casglu a Dosbarthu  
Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 27 Bore Coffi Cymdeithas Jerwsalem.  
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

Archebu  
trwy'r  
post

Gwledydd Prydain - £22

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184



# Tîm Pêldroed Llandygái F.C. 1911-12



Yn rhifyn Ionawr o'r Llais, cyhoeddwyd lun o dîm pêldroed Llandygái a dderbyniwyd gan gyfaill o Fangor wrth glirio tŷ perthynas yn Hiracl yn ddiweddar. Dyma lun arall o'r tîm a ddaeth i'r golwg.

Mae dyddiad hwn yn sicr, oherwydd y mae'r aelod yng nghanol y rhes flaen yn dal rhwng ei bennau gliniau bêl ag arni'r geiriau "Llandegai F. C. 1911-12".

Yr unig aelod y gwyddom pwy ydi o yw'r ail

o'r dde yn y rhes flaen, sef William Richard Owen o Hiracl (tad teulu siop sglodion Lôn Glan Môr), a fu'n llongwr. Diddorol gweld y bu gan y tîm "fascot", sef y daeargi bach y mae aelod yng nghanol yr ail res yn ei ddal o dan ei gesail. Pwy, tybed, yw'r lleill? Ydi darllenwyr "Llais Ogwan" yn gwybod? Os oes gan rhywun unrhyw wybodaeth, cysylltwch gyda Gareth Llwyd ar 01248 601415 (e-bost: garethllwyd197@btinternet.com).



Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn recordio a chynhyrchu ystod eang o Lyfrau Llafar sydd ar gael yn eich llyfrgelloedd lleol. Y llyfrau diweddaraf ar gyfer plant a phobol ifanc a recordiwyd yw'r canlynol. Gellir eu benthyca yn rhad ac am ddim trwy gysylltu a'ch llyfrgell leol.

DOSBARTH MISS PRYDDERCH - LLYFR 2 : SILFF Y SARFF (Mererid Hopwood)  
DERI DAN Y DALIWR DREIGIAU (Haf Llewelyn)  
CYFRES MAES Y MES - Dwy stori gan Nia Gruffydd : BRIALLEN A BRECH Y MÊL a BRWYNWEN A'R ADERYN ANFERTH HUFEN AFIACH (Meilyr Siôn)

Sefydlwyd 1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

### CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda  
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**Owen's** Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
www.owenswales.co.uk

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor  
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415  
Neville Hughes ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

- £13.00 Dr. Elwyn Hughes, Ystradgynlais.
- £4.50 Di-enw, Rhos y Coed, Bethesda.
- £5.00 Di-enw, Maes Coetmor, Bethesda.
- £4.50 Di-enw, Bethesda.
- £10.00 Teulu Ffarm Cochwillan, Talybont.
- £50.00 Eirlys Ellis, Talybont.
- £14.50 Mr a Mrs Rheinallt Jones 15 Rhos Elfed, Bethesda
- £20.00 Ann T Jones, Tregarth

**Diolch yn fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mawrth

- £30.00 (168) Mair Williams, Arafon, Mynydd Llandygái.
- £20.00 (59) Ann T. Jones, Tal y Cae, Tregarth.
- £10.00 (146) Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.
- £5.00 (2) Joseph Evans, Glan Ffrydlas, Bethesda.

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes - 600853)**

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd



DILYNWCH NI AR  
**TRYDAR**



## Ysgol Abercaseg

### Diwrnod Y Rhif

Da iawn pawb am wisgo yn arbennig ar ddiwrnod y rhif! Cafwyd amser gwych yn chwarae gemau fel dyfalu 'Pa rif ydw i?', helpa rhifau, gemau bwrdd rhifau, defnyddio rhifau i ysgrifennu 'Diwrnod y Rhif', darganfod cyfanswm rhifau pawb yn y dosbarth a llawer iawn mwy. Diolch i chi gyd rydym wedi casglu £97 i'r elusen NSPCC.



### Dydd Gŵyl Dewi

Unwaith eto eleni roedd Dreigiau Caseg y Siarter Iaith (plant Blwyddyn 2) wedi gweithio'n arbennig ar gyfer cynllunio a chynnal Ffair Gŵyl Ddewi ar gyfer gweddill plant yr ysgol. Er ein bod yn dathlu'n gynnar blwyddyn yma, gwych oedd gweld pawb wedi dod yn eu coch, gwyn, gwyrdd neu wisg Gymreig a dod â £1 ar gyfer cymryd rhan yn weithgareddau'r ffair. Roedd y plant wedi paratoi stonddin paentio

ewinedd coch, gwyn a gwyrdd, paentio wyneb, golff 'Dewi Sant,' Bowlio deg Gareth Bale a llawer iawn mwy. Da iawn blwyddyn 2!

### Ymweliad sypreis!

Roedd plant yr ysgol wedi syfrdanu'n llwyr ar brynhawn Mercher pan gerddodd neb ond Dona Direidi drwy ddrws yr ysgol! Doedd plant y dosbarth Derbyn methu deall sut oedd Dona Direidi yn Ysgol Abercaseg a hwythau newydd fod yn ei gwyllo hi ar y teledu yn ystod amser chwarae gwlyb! Diolch yn fawr Dona Direidi!

### Clwb Codio a Digidol

Diolch o galon i pob rhiant a gofalwr plant y Clwb Codio a Digidol a fynychodd y clwb olaf ar gyfer gweld beth oedd y plant wedi bod yn gwneud a dysgu. Braff gweld y plant yn dysgu eu rhieni sut i fewngofnodi ar y chromebooks, sut i godio yn defnyddio'r ProBot, creu fideo yn defnyddio'r sgrin gwyrdd a Puppet Pals a hefyd sut i ddefnyddio 'walkie talkies'!

### Noson agored i rieni

Braff oedd gweld cymaint o rieni yn dod i weld gwaith eu plant, a gwell byth oedd gweld y plant yn dangos ac yn esbonio'u gwaith yn eu llyfrau yn o gystal chlipiau fideo a lluniau o'u gwaith yn yr ardaloedd a thu allan ar SeeSaw i'w rhieni.



## Garddio

Mae'r gwanwyn yn arfer cyrraedd erbyn canol mis Mawrth, er y gallech daeru ein bod ni wedi cael tywydd mwyn hyd y Calan eleni. Mae'r cennin Pedr yn harddu'r ardal yn awr. Mae mwy o ddyddiau braff erbyn hyn ac mae 'na gyfle i wneud amryw o dasgau yn yr ardd. Rhaid paratoi gwelyau ar gyfer yr hadau, hau amryw o bethau, tocio llwyni a thacluso'n gyffredinol o gwmpas yr ardd. Tasgau

1. Gwarchod unrhyw dyfiant newydd rhag malwod a gwllithod.
2. Plannu nionod bach shallots, nionod sets a thatws cynnar.
3. Gallech blannu tatws yng nghornel y tŷ gwydr. Mi fyddan nhw'n barod ymhen rhyw 10-12 wythnos.
4. Plannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf.
5. Codi a hollti ambell glwstwr o flodau lluosflwydd [perennial].
6. Gosod compost newydd [trwch o rhyw ddwy fodfedd] yn y potiau fydd yn dal eich blodau.
7. Torri'r lawnt os oes angen - ar ddiwrnod sych.
8. Chwynnu! Gorau po gyntaf y cewch chi wared â nhw.

### Amser i ddechrau plannu!

Er bod y dyddiau'n ymestyn a'r haul yn gryfach, mae'n well oedi ychydig nes bod llai o bosibilrwydd i ni gael rhew caled; ond dyma'r amser i ychwanegu maeth i'r pridd. Fforchiwch yr wyneb er mwyn i'r awyr dreiddio oddi tano.

Gorffennwch docio'r rhosynnau a phrysgwydd eraill, gan edrych am afiechyd neu ffwng. Tociwch rosmari yn ofalus - dydy o ddim yn tyfu allan o hen bren. Plannwch datws cynnar - arbrowfch drwy eu tyfu mewn bwced neu botyn mawr os nag oes gennych lawer o ardd. Gallwch blannu pannas, ffa a chennin hefyd. Mae teulu'r nionod, shalots a garleg yn wydn iawn. Plannwch nhw rŵan, yn agos i'r wyneb ond cadwch olwg arnyn nhw am fod adar yn gallu gwneud difrod. Mae nionod yn hoff o bridd mân. Peidiwch â rhoi gormod o wrtaith iddynt, neu fe gewch chi nionod meddal yn y pen draw hy ni fyddant yn cadw'n dda dros y gaeaf.



# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus arall yn Henllys ger Biwmares ar y noson cyn Dydd Gŵyl Dewi Sant. Dan arweiniad Owain Arwel, derbyniodd y côr groeso mawr ynghyd â'n hunawdwy Raymond Roberts a Caleb Jones.

## Arweinydd gwadd

Yna, ddwy noson yn ddiweddarach, aeth y côr i ganu yng Nghlwb Golff Conwy yn nathliadau Gŵyl Ddewi'r clwb hwnnw. Yno eto derbyniwyd cymeradwyaeth uchel gan y gynulleidfa o aelodau ddaeth yno i wledda ar y noson gan iddynt godi ar eu traed i alw am fwy ar ddiwedd y perfformiad. Yn arwain y côr ar y noson roedd Ildid Ann Jones, cyn arweinydd Hogia'r Ddwylan. Roedd hi yno i gymryd yr awenau yn absenoldeb yr arweinydd, Owain Arwel a'r is-arweinydd, Caleb Jones. Plesiwyd yr arweinydd gwadd a'r gynulleidfa'n fawr gydag ansawdd canu Côr y Penrhyn a braf yw medru cyhoeddi bod y côr hwn bellach yn ddigon hyderus i berfformio dan unrhyw amgylchiadau.

## Canu mewn lleoedd gwahanol

Fel y sylwodd Idwal Jones o'r adran fariton, "Dan ni wedi canu ar sawl achlysur lle mae gofyn i'r côr addasu i sefyllfaoedd anghyfarwydd," meddai, cyn ychwanegu, "Dan ni wedi perfformio gydag arweinydd gwahanol o flaen torfeydd o filoedd yn y Stadiwm Genedlaethol yng Nghaerdydd, a hefyd o flaen cynulleidfa anferth o Americanwyr yn y Gadeirlan Genedlaethol yn Washington DC." "Ar ben hynny," meddai, "cawsom y profiad rhyfeddol o ganu i dyrfa frwdfrydig o ddilynwyr pop yng nghyngerdd rhyddhau albwm 'The Good, the Bad and the Queen' yn Blackpool."

## Idwal Jones a soniodd am y allu'r côr i addasu

(At y cysodydd: sicrhau bod y capswn uchod yn aros o dan y llun ogydd? Lithrodd un i ganol yr erthygl y mis diwetha! Diolch DR.)

## Côr Meibion Taf yn dod i Fethesda

Yn niwedd Mawrth bydd Cor



Meibion Taf o Gaerdydd yn ymuno â ni mewn cyngerdd yng Nghapel Jerusalem, Bethesda. Edrychwn ymlaen at groesawu'r côr hwn sy'n cynnwys nifer o bobl o fyd y cyfryngau Cymreig ymhlith ei aelodau. Canodd Côr y Penrhyn gyda nhw yn y brifddinas yn ystod un o gemau rygbi'r chwe gwlad yn erbyn yr Alban y llynedd.

## Gwahoddiad i ganu yn Llundain a Glastonbury

Yn dilyn llwyddiant ein perthynas â Damon Allbarn o'r grŵp 'The Good. The Bad and the Queen,' cyrrhaeddodd gwahoddiad i ni ganu gyda'r grŵp eto ar dri achlysur yn ysod yr haf. Gan nad yw'r côr wedi cael cyfle i drafod y posibiliadau eto ni ellir dweud mwy ar hyn o bryd ond gwyliwch y gofod hwn!

Erbyn i chi ddarllen y geiriau uchod bydd y côr wedi perfformio gyda 'Only Boys Aloud' ac Elin Fflur yn y Gadeirlan ym Mangor mewn cyngerdd elusenol. Bydd y grŵp Tant wedi ymuno â ni hefyd. Mwy o fanylion am y cyngerdd hwnnw y mis nesa!

## Cefnogi Elusen

Cyflwynodd aelodau'r côr yn cyflwyno siec gan y côr i Mike a Jules Peters ar ran eu elusen "Love, Hope, Strength". Ffi gafodd y côr am berfformio yng Nghwyl "Zip World Rocks" 2018 oedd hwn, a'r côr yn ei roi yn ôl i'r elusen.

## EGLWYS GELLI, TREGARTH YN DATHLU 150 MLYNEDD

### APÊL AM LUNIAU

Bydd Eglwys Gelli yn dathlu 150 o flynyddoedd ym mis Mehefin Os oes gan rhywun luniau a fuasai o ddiddordeb (e.e. priodasau, bedydd, digwyddiadau a.y.y.b) byddem yn ddiolchgar iawn pe caem eu benthg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa.

Cysylltwch â Rosemary,  
19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.  
Ffôn : 01248 600412



# Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),  
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192  
Angharad Williams,  
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

## Defib Ganolfan Tregarth

Yn ystod mis Chwefror, gosodwyd diffibriliwr ar y Ganolfan gan elusen 'Achub Calon y Dyffryn' a chafodd ei ariannu gan Gyngor Cymuned Llandygai. Ar y 14 o Fai, rydym yn cynnal sesiynau hyfforddiant yn y Ganolfan - sesiwn prynhawn 14:30 - 16:30 a sesiwn gyda'r nos 19:00 - 21:00. Mae'r sesiynau yma ar gael i drigolion lleol, croeso i bawb.

## Eglwys y Santes Fair

*Gwasanaethau*

Mawrth 17eg Boreol Weddi 9.30yn

Mawrth 24ain Cymun Bendigaid 9.30 yb

Mawrth 31ain Cymun Sul y Mamau 11 yb

Ebrill 7fed Boreol Weddi 9.30 yb

Ebrill 14ain Cymun Sul y Blodau 9.30 yb

Ebrill 21ain Cymun Pasg 9 yb

Ebrill 19eg Dydd Gwener y Groglith 12 yb

Mae cwrs Garawys yn cael ei gynnal yn Eglwys Gelli bob dydd Mercher yn ystod y Garawys, yn dechrau ar Fawrth 13eg rhwng 2-3 yb.

Bydd cinio Grawys ar Fawrth 21ain a 28ain, Ebrill 4ydd ac 11eg am 12 yb.

Cofiwch chwilio am luniau i arddangosfa yn yr eglwys fis Mehefn.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Ffion Rowlinson a'r teulu yn eu profedigaeth o golli cefnder yn Pwll Glas, ger Rhuthun

Anfonwn ein cydymdeimlad at Gerallt, Angharad a Gethin Ffordd Tanrhiw. Bu farw tad Gerallt sef Len Williams Gerlan, a hynny yn fuan iawn ar ôl y profedigaeth o golli mam Gerallt. Cofion atoch fel teulu.

## Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Huw Morris Jones, 28 Tal y Cae, ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 10. Llongyfarchiadau Huw.

Dathlu pen-blwydd yn 70 mlwydd oed wnaeth Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw ym Mis Chwefror. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

## Profedigaeth

Cydymdeimlwn gyda theulu Mair Rowlands Roberts, Brithdir, 43 Tal y Cae, Tregarth, fu farw mewn cartref gofal ym Malltraeth, Ynys Môn, chwe mis wedi iddi golli ei phriod, Y Parchedig Alwyn Roberts. Bu

ei hangladd yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, ar Chwefror 16 a chafodd ei chladdu ym Mynwent Pentir.

Anfonwn ein cofion at Glyn a Bethan Catrin a'i hwyron Lois, Daniel a Lea. Bu Mair yn athrawes mewn amryw o wledydd yn cynnwys Mizoram yn yr India, yn Ysgol Llandygai a chofiwn yn annwyl amdani fel un o sefydlwyr y Grŵp Samariaid ym Mangor.

Cydymdeimlwn gyda Gerallt, Angharad, Bleddyn, Gethin a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Gerallt sef y diweddar Len Williams, Gerlan.

Cydymdeimlwn gyda Valerie Ellis Jones, ei mab Dewi, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli David Ellis Jones, Glan y Gors, Tregarth ar Fawrth 12.

Bu farw Eric Iolen Williams, Brynteg, Tregarth, wedi gwaeledd byr ar Fawrth 20 a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Muriel, Dilys ei fam a'r teulu yn eu colled.

Daeth profedigaeth i ran William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion, pan fu farw ei frawd yng nghyfraith Richard Ellis Jones o Benrhosgarnedd, Bangor. Pob cydymdeimlad i chwithau fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Christine Morris Jones a'r teulu yn Tryfan, Tal y Cae, Tregarth, wedi marwolaeth ei brawd yng nghyfraith Elwyn yn y Bala.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Bleddyn Hedd Williams ar achlysur hapus ei briodas yn Nant Gwytheyrn gydag Angharad Griffiths. Mae Bleddyn yn fab i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

## Capel Shiloh, Tregarth

*Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol*

Mawrth 10 Idris Thomas, Dinorwig

Mawrth 17 Philip Barnett, Swydd Efrog

Mawrth 24 Jennie Hurd, Cadeirydd y Dalaith

Mawrth 31 Richard Gillion

Ebrill 7 Richard Gillion

Ebrill 14 Oedfa Deulu Sul y Blodau yng nghwmni'r ieuencid a Rhian Evans-Hill

## Drws Agored

Cofiwch fod drws agored yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 i 12 o'r gloch am sgwrs, paned a chwmni.

## Merched y Wawr Cangen Tregarth

I ddathlu Gŵyl Dewi bu'r aelodau yn gwledda ym Mwyty newydd Pot Jam ym

Mhorthaethwy, Nos Lun, Mawrth 5. Cafwyd pryd tri chwrs ardderchog a hynny mewn awyrgylch gartrefol braf a Chymreig. Barn pawb oedd bod y bwyd yn werth chweil ac y byddwn yn dychwelyd yno yn unigol a gyda'n teuluoedd yn fuan. Diolch i Nia a'r staff am y croeso a'r wledd.

Bydd y Gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Ebrill 9, pan gawn groesawu Linda Brown o'r Gerlan atom am noson o hwyl dan y teitl 'Run Sbit. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

## Capel Shiloh Tregarth

Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

Ebrill 15 Euros Wyn Jones, Llangefni

Ebrill 22 Mererid Mair, Caernarfon

Ebrill 29 Dr. Jennie Hurd, Croesoswallt

Mai 6 Richard Gillion

Mai 15 Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol Gwynfor Williams, Caernarfon

Mai 20 Cledwyn Williams, Bangor

Mai 27 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

## Oedfa Deulu Sul y Blodau

Braf iawn oedd cael croesawu Oedfa Deulu unwaith eto yn ôl yr arferiad yn Shiloh ar Sul y Blodau. Paratowyd y gwasanaeth gan Christine Morris Jones, ond oherwydd amgylchiadau trist o golli ei brawd yng nghyfraith yn y Bala methodd hi a Huw gymryd rhan eleni. Cydymdeimlwn gyda hi a'r teulu yn eu profedigaeth. Diolch i Gwenno a Iestyn, i Ifan, Myfi a Nel am eu cyfraniad ac yn arbennig i Anna Jên o Elusen Cymorth Cristnogol am ddod atom i sôn am y cefndir i Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd yn cael ei chynnal yn ystod yr ail wythnos ym Mis Mai.

Mae bob amser yn hyfryd cael cwmni a gwasanaeth Anna ac roedd ei neges yn hynod amserol ac yn gwneud i bob un ohonom ddiolch am bopeth sydd gennym a bod yn barod i gyfrannu eto eleni. Cyfeiliwyd gan Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, a diolchwn iddo yntau am ei gyfraniadau yn y gwasanaethau. Diolch i Sioned Roberts, Fferm Dob, am baratoi'r teisennau Crôg gyda phaned ar ddiwedd y gwasanaeth. Rhannwyd wyau Pasg i'r ieuencid gan ddiolch iddynt am fod yn barod i gymryd rhan yn yr oedfa. Nos Sul, Ebrill 1, yn ystod y gwasanaeth dan ofal ein gweinidog Richard Gillion cawsom gyfle fel cynulleidfa i gydymdeimlo gyda Valerie a Dewi Ellis Jones, Glan y Gors, yn eu profedigaeth fawr o golli priod a thad, sef David Ellis Jones.

Bu David yn aelod yma yn Shiloh ers oddeutu tair blynedd, ers iddo ef a Valerie symud i Glan y Gors o



Lanfairpwll. Bu ei angladd yn Shiloh, Dydd Llun, Mawrth 19, dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon ac yna yn yr Amlogfa ym Mangor. Cofion a phob cydymdeimlad gyda Val, Dewi a'i briod Einir a'r ddwy wyres fach Ela Non ac Anni Côt.

Llongyfarchiadau i un o hogia Ysgol Sul Shiloh gynt sef Bleddyn Hedd Williams, ar ei briodas yn Nant Gwytheyrn gydag Angharad Griffiths. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i un arall o gyn aelod o'r Ysgol Sul sef Anest Rawlinson, Llanllechid, a lwyddodd i basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar, Pob lwc gyda'r gyrru Anest ac yn dy swydd newydd.

#### Drws Agored

Mae drysau Shiloh ar agor pob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch ar gyfer sgwrs, paned a chwmni. Cofiwch alw!

#### Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, Chwefror 4 cafwyd cyfarfod cyntaf y gangen yn 2019, a hynny yn Ffestri Capel Shiloh. Croesawyd pawb gan y Llywydd Gwenda Davies, ac anfonwyd ein cofion fel cangen at amryw o'n haelodau a chyn aelodau sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac yn eu plith Eleanor Holland, Glenys Clarke, Jennie Jones, Bessie Buckley, Nesta Williams ac Elina Owen.

Rhoddydwyd gwybodaeth am y Distawrwydd Noddedig fydd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon ar Fawrth 18, gyda'r arian yn cael ei glustnodi eleni ar gyfer Awtistiaeth Gwynedd. Bydd cystadleuaeth Bowlio Dêg Rhanbarth Arfon ar Ebrill 1.

Braf iawn oedd cael cyflwyno'r wraig wadd am y noson sef Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid ddaeth i siarad ar y testun 'Gwreiddiau a Llyfrau'.

Cawsom glywed am ei magwraeth ym Meirionnydd gyda hanes ei chartref hynafol Plas yn Ddol, sydd ar ystâd y Rhug yn agos i Gorwen. Roedd ganddi luniau ardderchog o'i theulu, gan fynd yn ôl i'r ddeunawfed ganrif ac ychydig cyn hynny hefyd.

Roedd un o'i chyndeidiau wedi bod yma yn Nyffryn Ogwen, ac ef, yn anad neb, a gychwynnodd yr achos ym mhentref Talybont. Roedd y gwaith ymchwil a waned gan Megan yn drylwyr a hynod ddiddorol a diolchwyd iddi am fynd ati i baratoi mor drylwyr gan Nesta Llwyd.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa ar Fawrth 4 pan fyddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Ffestri Capel Shiloh.

Ar Ebrill 1 cawn sgwrs am Robert Jones ac Agnes Hunt a sefydlodd yr Ysbyty yn Gobowen, gyda'r siaradwraig Ann Jones. Croeso mawr i bawb.

## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU

☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU

☎ 01248 351633

#### Dathlu Gwyl Dewi

Daeth 300'r pentrefwyr at ein gilydd yn Neuadd Talgai i ddathlu Gwyl Dewi ar Fawrth y 1af am bryd o gawl a teisen. Roedd pawb wedi mwynhau cael sgwrs. Diolch i Jane A Kathryn am drefnu, ag am y gwahoddiad.

Llongyfarchiadau i Ian a Daphne Russell, Bwthyn Ceirios. Rhif 17 ar enedigaeth Poppy. Maent yn Nain a Taid am yr wythfed tro. Mae'r teulu yn byw ar gyrion Caeredin.

#### Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Elin a Tomi Smith, Rhif 7 o'r Pentre ar ddathlu eu Priodas Aur ar Ddydd Gwyl Dewi. Cofion gan y Pentrefwyr.

#### Eglwys Sant Tegai, Llandygái

##### Cwrs Garawys

Cynhelir cyfres o fyfyrddodau i astudio'r Garawys ar Fawrth 13, 20, 27 ac Ebrill 3, 10, 17 am 2.00 y prynhawn yn Eglwys St Mair Tregarth. Croeso i bawb o Fro Ogwen.

#### Cywiro Camgymeriad

Hoffwn gywiro camgymeriad yn y cylchlythyr plwyfol! Bydd Stondin Eglwys St Tegai yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Llun Mawrth 25ain ac nid ym mis Ebrill. Dewch i gefnogi os ydych yn ymweld â'r ysbyty ar y dyddiad yma.

#### Festri Pasg 2018

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys St Tegai ar Ebrill 14eg am 12.15 h.y. yn syth ar ôl y gwasanaeth arferol. Croeso i bawb.

#### Cinio Plwyf Bro Ogwen

Cynhelir y cinio ar nos Wener Ebrill 26ain am 6.30 ar gyfer 7 o'r gloch yng Ngwesty'r Fictoria Porthaethwy. Bydd angen dewis y fwydlen a thalu am y pryd cyn ddiwedd mis Mawrth. Nerys Jones sydd yn gyfrifol o dderbyn y taliadau yn Eglwys Sant Tegai. Dau gwrs £16 a thri cwrs £20.

#### Garddwest y Tair Eglwys

Dyddiad i'w gofnodi! Bydd y Garddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 13eg 2019. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau i stondinau amrywiol - anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn!

#### Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai

Y drefn arferol yn y mis yw:  
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.  
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.  
Gwasanaeth Taizé ar y pedwerydd Sul am 5 y.h.  
Mawrth 31ain, sef y bumed Sul yn y mis, gwasanaeth ar y cyd Eglwys St Mair Tregarth am 11 y.b.

#### Rhagflas o wasanaethau Eglwys Sant Tegai yn yr Wythnos Sanctaidd ym mis Ebrill

Gwasanaethau arbennig yn yr eglwys :  
**Dydd Gwener y Groglith** (Ebrill 19eg) 9.45 y bore, Gorymdaith Y Groes sef taith gerdded o 3.5 milltir yn cychwyn o'r eglwys. **Sul y Pasg** (Ebrill 21ain) 10.15 Yr Offeren - noder yr amser.

### TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio. Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

### CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

**Bwyd cartref blasus**  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partion o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**  
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

### BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion o bob math - dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill. Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

# gair neu ddau

John Pritchard

## Pregeth Tudalen Flaen

O fewn ychydig fisoedd bydd *Llais Ogwan* yn cyhoeddi ei bum canfed rhifyn. Bydd y tri phapur bro arall yr wyf fi fwyaf cyfarwydd â hwy'n cyrraedd y garreg filltir hon o fewn y blynyddoedd nesaf. Gyda'i gilydd, mae *Eco'r Wyddfa, Llanw Llŷn, Y Gadlas* a *Llais Ogwan* wedi cyhoeddi bron i ddwy fil o rifynnau. Cafodd pob math o straeon sylw, a thrafodwyd pob math o bynciau ar dudalen flaen y papurau hyn dros y blynyddoedd. Ond tybed a wŷr neb sawl gwaith y bu rhywbeth a ddywedwyd ar bregeth yn sail i'w prif erthygl? Mentraf ddweud na ddigwyddodd hynny'n aml. Mewn gwirionedd, dim ond un erthygl o'r fath a gofiai; a chyhoeddwyd honno yn *Llanw Llŷn* ddeugain mlynedd yn ôl.

Y Parchg Ddr Tudur Jones, Prifathro Coleg Bala-Bangor ar y pryd, oedd y pregethwr a ddyfynnwyd yn yr erthygl honno. Traddodwyd ei bregeth noson ordeinio gweinidog newydd ym Mhen Llŷn ddiwedd Mawrth 1979. Yr oedd un sylw a wnaeth yn ddigon i gorddi'r dyfroedd ac i hawlio sylw tudalen flaen y papur bro. Bu cryn drafod ar ei eiriau am ddyddiau os nad wythnosau. Roedd llawer wedi eu synnu, mwy nag un wedi cymryd atynt yn arw, ac ambell un wedi digio o glywed y Prifathro'n dweud "fod Pen Llŷn yn un o'r ardaloedd mwyaf paganaidd yn Ewrop".

Rhyfeddu at y fath awgrym a wnaeth llawer o'r bobl a glywodd y bregeth neu

a ddarllenodd amdani yn y *Llanw*. Wfftio at y fath syniad a wnaeth eraill. Ond yr un peth a oedd yn amlwg i bawb oedd na fyddai gŵr mor alluog a sylwgar a duwiol â Dr Tudur wedi dweud peth felly'n ddifeddwl ac yn ddi-sail. Doedd o ddim yn pwyntio bys at Ben Llŷn yn unig. Soniodd am Ben Llŷn am mai yno yr oedd y noson honno; ond gallasai ddweud yr un peth am rannau eraill o'r wlad. A doedd o ddim yn dweud y peth yn ysgafn; oherwydd i Dr Tudur loes fawr oedd gorfod cydnabod fod Pen Llŷn a Chymru yn 1979 ymysg ardaloedd mwyaf paganaidd y Cyfandir.

Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, nid oes angen crebwyll a dirnadaeth ysbrydol loyw'r Prifathro i synhwyro mai'r un, gwaetha'r modd, yw'r gwir o hyd. Ac am fod Pen Llŷn, Arfon, Dyffryn Ogwen a Dyffryn Clwyd ymhlith ardaloedd annwyl y Gymru baganaidd sydd ohoni yn 2019, oni ddylai pawb sy'n ymboeni ynghylch y pethau hyn alw ar Dduw i drugarhau? Oni ddylai byw yn un o ardaloedd mwyaf paganaidd Ewrop yrru pobl Dduw i'w gliniau i erfyn arno i dosturio ac i fywchau ei waith? Rhyfedd na fyddem wedi diflasu ers blynyddoedd ar y baganiaeth sydd o'n cwmpas ac wedi galw ar y Duw Mawr i ymweld â ni o'r newydd trwy ei Ysbryd Glân er mwyn ein denu ni a'n cyd-wladwyr at yr Arglwydd Iesu Grist.

## MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. LI. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**

♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**

♦TEIARS A BATRIS♦

**GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723

Ffacs: 605068

## SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T  
a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs,  
Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,  
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl  
anghenion siopa! Galwch draw neu  
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o  
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i  
Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org

**01248 208 485**



# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



**Bethesda 01248 600045**

**Caernarfon 01286 676070**

**Llangefni 01248 751677**

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

**Mynytho 01758 730768**

**Llanrwst 01492 640794**

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst**



## Ysgol Bodfeurig

### Dathlu Gwyl Dewi

Gyda dydd Gwyl Dewi'n digwydd yn ystod y gwyliau ysgol fel ddaeth cyfle i ni ddatlu'r achlysur yn fuan eleni. Gwahoddwyd rhieni, ffrindiau a phobl y gymuned i neuadd yr ysgol am gyngedd arbennig. Roedd y neuadd yn orlawn a phawb wedi eu syfrdanu gyda'r canu, adrodd a dawnsio gwerin arbennig. Gorffennwyd y diwrnod gyda paned, cacenau cri a bara brith. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi.

### Clwb Coginio

I baratoi at ddatliadau Gwyl Dewi daeth y clwb coginio at ei gilydd i goginio cacenau cri. O dan arweiniad Miss Emily bu pawb yn pwysu, cymysgu, rowlio a choginio yn barod i'w gweini i'r rhieni yn ystod y cyngerdd. Yn dilyn y gwyliau bydd y clwb yn cyfarfod yn wythnosol i goginio bwydydd blasus. Mmmm!



### Dydd Miwsic Cymru

Pe tasech wedi gyrru heibio'r ysgol ar ddydd Miwsic Cymru buasech wedi cael gwledd i'r glust wrth glywed cystadleuaeth carioci yn mynd ymlaen. Cafwyd caneuon o bob math o rai traddodiadol i'r Welsh Whisperer, o Bryn Fôn i Maharishi. Un o uchafbwyntiau'r dydd oedd neges bersonol i bawb yn yr ysgol gan Bryn Fôn, Yws Gwynedd a'r Welsh Whisperer - ysbrydoliaeth i gerddorion y dyfofol efallai!

### Orchestraventure

Bu dosbarth Tryfan ac Ogwen ar ymweliad â Venue Cymru ar gyfer digwyddiad arbennig iawn sef 'Orchestraventure'. Perfformiad oedd hwn gan Gerddorfa Coleg Cerdd a Drama Caerdydd. Cafwyd cyfle i wrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth o Harry Potter i Sosban Fach. Braff oedd clywed cannoedd o blant yn mori canu Sosban Fach i gyfeiliant cerddorfa fyw. Profiad gwerth chweil i bawb.



### Archifdy

Y tymor yma mae dosbarth Ogwen yn astudio'r ardal leol a hanes yr ardal o ran y Streic Fawr. I roi gwell dealltwriaeth i bawb o'r hyn ddigwyddodd dros ganrif yn ôl cafwyd fynd ar ymweliad i'r archifdy yng Nghaernarfon. Cafodd pawb ddysgu llawer gan Gwenda a Dilwyn gan gynnwys gweld enghraifft o lyfr log yr ysgol.

Bu i'r ymweliad yn bendant roi ysbardun i'r plant ar gyfer mwy o waith yn ystod y tymor.

### Ymgyrch Indi-anna

Beth mae plant 10 oed eisiau ar eu penblwydd? iPad? Teganau? Dillad newydd? Ddim i Indi-anna, un o blant Ysgol Bodfeurig.

Ganwyd Indi-anna chwech wythnos yn fuan a chafodd ofal arbennig yn yr Uned Gofal Dwys i fabanod yn Ysbyty Gwynedd. A hithau bellach bron yn ddeg oed fe benderfynodd ei bod am dalu'n ôl am y gofal yma trwy godi arian at yr achos.

Penderfynodd wneud hyn trwy beidio a derbyn anrhegion penblwydd, rhoi'r gorau i siocled am fis a chymryd rhan mewn triathlon oedd yn golygu rhedeg, beicio a nofio a hynny i gyd ar ddiwrnod ei phenblwydd!

Cyn y diwrnod mawr daeth criw ffilmio Heno i'r ysgol i adrodd ei hanes - profiad bythgofiadwy i'r dosbarth!

Ar y diwrnod doedd y tywydd ddim yn ffafriol ond wnaeth hyn ddim gwahaniaeth i Indi-anna a llwyddodd, gyda rhai o'i ffrindiau o'r ysgol yn cymryd rhan hefyd, i gyflawni'r triathlon.

Yn dilyn ei llwyddiant cynhaliwyd diwrnod glas yn yr ysgol gan wisgo glas a gwerthu cacenau i godi mwy o arian. Bellach mae Indi-anna wedi codi bron i £1000 o arian a bydd yn mynd i'r Uned yn Ysbyty Gwynedd i gyflwyno siec. Yn dilyn ei gwaith caled cafodd ei enwi yn 'Blentyn y Flwyddyn' gan bapur newydd y Chronicle.

Da iawn ti Indi-anna, mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn ohona ti ac rwy'ti'n siwr o ysbrydoli eraill i feddwl am eraill yn gyntaf.



## Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



### 2019

#### Mawrth

- 16 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen
- 23 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.
- 30 Cefnfaes - Clwb Camera Dyffryn Ogwen.

#### Ebrill

- 06 Cefnfaes - Neuadd Talgai
- 13 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen
- 27 Cefnfaes - Cymdeithas Capel Jerusalem

#### Mai

- 4 Cefnfaes - NSPCC
- 11 Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
- 18 Cefnfaes - Gorffwysfan

#### Mehefin

- 01 Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
- 15 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen.
- 22 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.
- 29 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen

#### Medi

- 14 Cefnfaes - NSPCC
- 21 Cefnfaes - Eglwys Sant Tegai, Llandygai
- 28 Cefnfaes - Plaid Cymru.

#### Hydref

- 19 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 26 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

#### Tachwedd

- 23 Cefnfaes - Neuadd Talgai.
- 30 Cefnfaes - Plaid Lafur.

#### Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,  
**Neville Hughes** 600853  
(nev\_hughes@btinternet.com)

### CANOLFAN CEFNFAES

#### GYRFA CHWIST

MAWRTH 26  
EBRILL 9, 23 a 30

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

### Carmel Llanllechid

#### Te Bach

yn y festri

**Pnawn Llun, 25 Mawrth**

2.30 - 4.00

Croeso i bawb

(Elw at Apêl Morgan Hughes)

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI EGLWYS CRIST GLANOGWEN

SADWRN, 16 MAWRTH  
10.00 - 12.00

## RADIO RHYDD

(Band o Fethesda)  
yn chwarae yng Nghaffi Croesor,  
Croesor, Llanfrothen

**30 Mawrth 2019 am 19.30**

Tocynnau: £7 ar y drws.

## Marchnad Ogwen

**Ebrill 13eg**

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Mai 11eg**

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Mehefin 8fed**

Cae Sioe Dyffryn Ogwen

Bywydd, Creffttau, Lleol

[www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk)  
Facebook

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN

SADWRN, 30 MAWRTH  
10.00 - 12.00

### Cymdeithas Jerusalem

**Nos Iau, 11 Ebrill**

am 7.00yh

yn Festri Jerusalem

**Noson yng nghwmni**

**Mari Gwilym**

### CLWB CRICED BETHESDA

#### BINGO A NOSON O WERTHU NWDYDDAU HARDDWCH

**Nos Wener, 22 Mawrth**

am 7 o'r gloch

Elw at SANDS Gwynedd  
ac Ymchwil Cancr

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI NEUADD TALGAI

SADWRN, 6 EBRILL  
10.00 - 12.00

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

SADWRN, 13 EBRILL  
10.00 - 12.00

**Eglwys y Santes Fair  
Gelli, Tregarth**

#### TE CREMPOG

Sadwrn, 2 Mawrth  
am 2 o'r gloch



# Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb  
Lleoliad: Canolfan Cefnfaes, Bethesda  
7.15pm - 9.30pm

## Rhaglen Mawrth - Mai 2019

**Mawrth 6** Noson efo Clwb Camera Caernarfon

**Mawrth 20** Cystadleuaeth: 'Môr ac Arfordir'

**Mawrth 30** Bore Coffi, Cefnfaes  
**Ebrill 3** 'The Dragons Journey' gyda Margaret Salisbury FRPS

**Ebrill 17** 'In Search of Wild Dogs' gydag Alun Williams, Llanelwy (lluniau bywyd gwyllt)

**Mai 1** Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau:  
[www.dyffrynogwencamera.co.uk](http://www.dyffrynogwencamera.co.uk)

## Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 01248 355336

### O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen

*Lon Castell*

Yn dywyll un gyda'r nos roedd bwndel o goed wedi cael eu gadael ar y lôn ger fferm Castell. Ceisiodd y gyrrwr ffonio yr heddl uar 101 a methu cael trwodd o gwbl. Mae llawer o gwyno am y rhif yma ac obsynau i bwysio a gorfod disgwyl. Llythyr o gwyn i'r heddlu am hyn ac ar ôl disgwyl am amser maith does neb yn ateb chwaith.

Ar ddeall fod diffriblydd Rhiwlas wedi ei osod yn y ciosg. Diolch i R Hefin Williams am drefnu i dderbyn drws y ciosg a sicrhau ei fod wedi ei osod yn ei le.

Llwybr 74, Carreg y Garth, lle nad oes posib i Gyngor Gwynedd drefnu amserlen i atgyweirio y llwybr hwn oherwydd diffyg cyllideb cynnal a chadw. Fodd bynnag, yn y cyfamser gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu yn rhoi cais am arwydd "Dim Beicwyr" ar gychwyn y llwybr hyd nes y bydd wedi cael ei atgyweirio.

### Dathlu

Bu dipyn o ddathlu yn ddiweddar yn 19, Bro Rhiwen, cafodd Brenda benblwydd arbennig ac yn ogystal dathlodd hi a Meurig eu priodas aur. Llongyfarchiadau i chi eich dau a phob dymuniad da i chi yn y dyfodol.

### Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Dylan, mab Tony a Glenys, Bron y Waun, ar ei apwyntiad yn ddirprwy brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen. Ar y funud mae'n bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Glan Clwyd ac yn cychwyn ar ei swydd newydd ar ôl y Pasg. Bu'n mynychu ysgol Rhiwlas ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen a bydd yn gartrefol yno yn sicr. Pob hwyl i ti Dylan.

### Merched y Wawr

Cyfarfod Chwefror12: Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol. Jini, Elina, Jean, Carol, Olwen ac Annes. Braf oedd clywed fod Jini ac Elina yn gwella. O'r pwyllgor Rhanbarth clywsom fod y pwyllgor Cyllid yn dymuno codi'r tâl aelodaeth i £18 a bydd £1 yr aelod yn ychwanegol yn mynd i'r gangen. Mae cynllunio ar droed i gael taith gerddad yn yr haf. Sonwyd eto am brosiect y

llywydd yn ymwneud â sbwriel. Cafwyd hefyd fanylion am y Bowlio Deg, Yr Wyl Haf, y Pum Rhanbarth a manylion y cystadlaethau crefft.

Ein gŵr gwadd oedd Huw Price Hughes o Fethel ond yn wreiddiol o Ddeiniolen. Plismon ydoedd wrth ei alwedigaeth ond â diddordeb mawr mewn pysgota ac yn ysgifennydd Cymdeithas Seiont, Gwyrfaï a Llyfni, cymdeithas a ffurfwyd yn 1908 a chafodd ei urddo gan yr Eisteddfod Genedlaethol am ei waith gyda'r gymdeithas yma. Teitl ei sgwrs oedd Tu Hwnt a daethom i ddeall fod ganddo ddiddordeb yn y byd tu hwnt i'n deall ni. Roedd ganddo wybodaeth am nifer helaeth o bobl oedd wedi cael profiadau rhyfedd mewn amrywiol lefydd ac adeiladau. Roedd ei sgwrs yn ddifur y lluniau yr adeiladau ganddo hefyd, Dwi'n siwr i ni gyd gysgu;n dawel y noson honno!

Linda a ddiolchodd iddo ar ein rhan a'r ddau wedi eu magu yn yr un ardal a diolch hefyd iddi hi a Carys am wneud y baned. Jennifer enillodd y raffl.

### Diolch

Dymuna Mrs Myra Jones, Bron y Waun, ddiolch am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar. Gobeithio fod y poen cefn yn gwella Myra.

### Clwb Rhiwen

Cyfarfod Chwefror 13 Buom yn llunio y rhaglen am y tymor, yn anffodus roedd sawl un heb fod yn dda a gobeithio eich bod yn teimlon well erbyn hyn. Dilys a Iona oedd yn gyfrifol am y baned a Dilys hefyd enillodd y raffl.

Cyfarfod Chwefror 27 Braf oedd croesawu Carol Jones, Creigle, i'r Clwb am y tro cyntaf a mae'n rhaid ei fod yn ddiwrnod lwcus iddi gan mai hi enillodd y raffl. Gan fod gŵyl ein Nawdd Sant yn agos cawsom bnawn yn atgoffa ein hunain am enwogion a llefydd pwysig yng Nghymru. Diolch i Jean a Dilys am y lluniaeth, roedd y teisennau cri yn flasus iawn.

### Y Neuadd

Bu noson Elvis yn hynod o lwyddiannus a diolch i Wyn Roberts am gytuno i ddod atom a daeth criw o'i ddilynwr gydag ef hefyd. Diolch i'r rhai a fu'n trefnu'r adloniant a phawb a fu'n helpu ar y noson. Diolch i'r rhai a ddaeth o bell ac agos, i gefnogi'r digwyddiad.

### Dyddiadau i'w cofio

Mawrth 19 - Hyfforddiant Di ffib, 7 - 9 yr hwyr  
Mawrth 21 - Bingo am 7 yh Dafydd Evans o Ddeiniolen yn galw.  
Ebrill 6ed - Noson yng nghwmni y Welsh Whisperer am 7yh  
Oedolion £10 plant dan 12oed £3  
Mai 2il - sgwrs am hanes Plas Pentir gan Cynrig Hughes

Festri Bethlehem, Talybont

## NOSON GOFFI

NOS FERCHER, 27 MAWRTH

am 6.30yh

Elw at Apel Madagascar  
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg  
Trefnir gan Ysgol Sul Bethlehem

## FFAIR BASG

Sadwrn, 13 Ebrill

11.00 - 2.00

yn y Neuadd Goffa

Mynydd Llandygai

Er budd Eglwys St. Ann a St. Mair

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI EGLWYS ST. CEDOL

SADWRN, 23 MAWRTH  
10.00 - 12.00

Clwb Criced Bethesda

## BINGO PASG

Nos Fercher, 17 Ebrill

am 7 o'r gloch

Elw at NSPCC

## Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd  
Gerlan, Bethesda

LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166  
carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn**, 2 Pen Clwt, Gerlan  
LL57 3TJ

☎ 01248 208254 / 07880 702640 /  
heleddselwyn@hotmail.com

### Colled

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Len Williams 16 Ffordd Gerlan. Bu farw Len Post 5 wythnos yn union ar ôl colli ei wraig Megan. Mae ein cydymdeimlad dwysaf efo Gerallt ac Angharad, Dylan a Helen a Nerys ag Elwyn a'r teulu i gyd. Mae ein cofion hefyd efo'i chwaer Betty. Cynhaliwyd yr angladd yn yr amlosgfa ym Mangor Chwefror 28ain a bydd unrhyw roddion er cof amdano yn mynd at Glwb Criced Bethesda ac Eglwys Crist Glanogwen.

### Babi Newydd

Mae 'na hogan fach newydd wedi cyrraedd Tantreflys sef Gwenno Hywyn Williams. Llongyfarchiadau i Nia Hywyn a Gareth

Williams ar enedigaeth y fechan. Mae ei brawd mawr Deio wedi gwirioni yn lan!

### Taith i Kuwait

Dechrau Chwefror, cafodd Lisa Jên a Martin Hoyland o'r Band 9Bach deithio i Kuwait a pherfformio mewn cyngerdd yno i ddathlu 120 mlynedd o gyfeillgarwch rhwng y DU a Kuwait. Cawsant brofiad anhygoel yno a chyfle i gyd berfformio efo artist o'r wlad sef Nawaf Gheraibah ai fand yn Theatr Adulhussain Abdulredha yn Salmiya. Profiad bythgofiadwy.

### Gwellhad buan

Cofion cynhesaf at Helen Williams Ciltwllan sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan Helen.

### Dathliad dwbl

Llongyfarchiadau mawr i Pedr Owen, Ciltwllan ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed a phasio ei brawf gyrru - gobeithio ei fod wedi cael hwyl yn dathlu tra ar ei wyliau yn sgïo efo Ysgol Dyffryn Ogwen.

Bu pen-blwydd arbennig arall yn Gerlan wrth i Cadi Elen Stryd Uchaf ddathlu ei

phen-blwydd yn 18 hefyd. Pen-blwydd hapus iawn iti Cadi!

### Croeso i Gerlan

Croeso mawr i Morgan a Becca Griffith i Stryd Goronwy. Da ni'n falch iawn eich bod wedi symud o'r Stryd Fawr ac yn edrych ymlaen at eich gweld chi, Efa ac Enlli o gwmpas Gerlan.

### Teulu Talentog

Llongyfarchiadau mawr i Mabli Non Stryd Fer - mae wedi llwyddo i gael cynnig lle ar gwrs colur yng Ngholeg Ffasiwn Lundain.

Mae ei brawd, Caleb Rhys, sydd eisoes wedi graddio mewn Cerdd ym Mangor ac yn is arweinydd Côr Y Penrhyn, wedi ei dderbyn ar gwrs i ddatblygu ei lais yn y Northern College of Music ym Manceinion.

Pob lwc i chi'ch dau!

## Carneddi

Estynnwn ein cydymdeimlad at Bleddyn, Angharad a'r plant Fron, Cilfodan y neu brofedigaeth o golli eu taid a hen daid, Len Williams, Gerlan.

## Siarad Cymraeg ac yn rhedeg busnes?

**Cysylltwch gyda Busnes Cymru i gael cyngor a gwybodaeth yn Gymraeg yn rhad ac am ddim.**

Gallwn eich helpu chi i ddatblygu eich busnes, ac rydym yn siarad eich iaith chi – Cymraeg a Saesneg bob dydd.

Mae ein gwasanaethau a'n gweithdai ar gael yn Gymraeg, ac yn addas ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr.

I fynychu cwrs yn Gymraeg neu am gyngor cysylltwch â ni i gofrestru neu i ddarganfod mwy.

# YnYManylion  
# GetCloser

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru  
businesswales.gov.wales

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**





## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**  
Rallt Uchaf, Pentir,  
LL57 4YB. ☎ 01248 601318  
E-bost:  
carys16@hotmail.com

### Ymfudo Brogaod

Pob gwanwyn mae cannoedd o frogaod yn ymfudo o gyfeiriad Rhyd-y-Groes i lyn dros ffordd i Ficerdy Pentir. Mae'r brogaod yn teithio ar hyd Lôn Rallt, pellter o 400 llath neu fwy.

Ers blynnyddoedd bellach mae criw brwdfrydig dan arweiniad Iwan yn monitro'r ymfudo'n ofalus. Maent yn cyfrif y niferoedd ac yn rhoi cymorth drwy gasglu'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu gwasgu dan olwynion ceir. Hyd yn hyn, mae dros 1,000 wedi eu casglu eleni a'u hebrwng i'r llyn ger Lôn Rallt. Hefyd, mae criw o Brifysgol Bangor yn cynnal gwaith ymchwil ar y brogaod. Maent yn cofnodi geneteg brogaod Pentir fel rhan o'u gwaith yn asesu a choladu gwybodaeth am boblogaeth brogaod Gogledd Orllewin Cymru.

### Eglwys St. Cedol, Pentir

*Clwb 100 Mis Ionawr 2019*

1af Rhif 42  
Helen Burbage, Rhiwlas  
2ail Rhif 23  
Ann Williams, Glasinfryn  
3ydd Rhif 40  
Nesta Barton, Rhiwen

*Clwb 100 Mis Chwefror 2019*

1af Rhif 38  
Huw Redverse-Jones  
Llanddaniel  
2ail Rhif 15 Terry Jones  
Caernarfon

3ydd Rhif 21  
Clive Williams, Rhiwlas

### Bora Coffi

Bydd yr Eglwys yn cynnal Bora Coffi yn Canolfan Cefnfaes, Bethesda at 23 Mawrth 10yb, Croeso cynnes i bawb.

### Ffair Grefftau

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Ffair Grefftau yn Neuadd Bentref Rhiwlas Dydd Sadwrn 13 Ebrill o 11yb i 4yh. Mae yna amrywiaeth o stondinau, i gyd yn grefftau lleol, gyda Lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

### Hwyl Yr Ŵyl

Prynhawn Sadwrn y 20 Ebrill - Sadwrn Pasg - Bydd prynhawn o hwyl yn cael ei gynnal yn y Ganolfan, Glasinfryn am 1.30yh. Bydd helpa Pasg ar gyfer y plant, gem o fingo, tombola ag ambell stondin a lluniaeth ysgafn, Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn yr hwyl.

### Gwasanaethau'r Sul

Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb, os na nodi'r yn wahanol, Croeso cynnes i chwi ymuno a ni yn y gwasanaethau:

17.3.19 Cymun Bendigaid  
24.3.19 Boreol Weddi  
31.3.19 10yb Sul y Mammau -Gwasanaeth ar y cyd- St. Ann a St. Mair, Mynydd Llandegai  
7.4.19 Cymun Bendigaid  
14.4.19 Boreol Weddi  
18.4.19 6yh Dydd Iau Cablyd  
19.4.19 12yh Gwener y Groglith - Myfyrdod wrth y Groes  
21.4.19 6yb Gwasanaeth y wawr - Maes Parcio Llyn Ogwen  
9yb Sul y Pasg - Cymun Bendigaid

## Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen


Daeth newyddion trist iawn ar ddiwrnod cyntaf o'r mis pan glywsom am brofedigaeth ein Cynghorydd Sir Rheinallt Puw o golli ei frawd, Meuryn yn sydyn yn ei gartref yn Sbaen. Anfonwn ein cydymdeimlad at Alwenna, Alan a Rhodri a'r teulu i gyd yn eu colled fawr. Mae Alwenna yn aelod ffyddlon o bwyllgor y gangen.

Cynhaliwyd ein bore coffi arferol cyn nesed i ddydd Gŵyl Ddewi ag yn bosib sef Mawrth 2il eleni. Fel y cofwch roedd rhaid gohirio'r un llynedd oherwydd eira mawr! Daeth nifer dda ynghyd er ei bod yn bygwth gwynt a glaw, a threuliwyd amser difyr yn cael sgwrs a hel atgofion, yn

ogystal â chodi arian teilwng i'r Gangen.

Mae Siân Gwenllian ein haelod cynulliad wedi trafod llawer yn ddiweddar am y newidiadau arfaethedig yn y gwasanaethau a gynnigir gan Ysbyty Gwynedd, sydd yn bygwth symud rhai ohonynt i Ysbyty Glan Clwyd, sydd yn eithriadol o bell i rai sydd yn byw ym Mhen Llŷn neu yn ne Meirionnydd. Gallwch ddiyn ein A.S. ac A.C. ar eu tudalennau gweplyfr.

Bydd Cynhadledd Wanwyn Plaid Cymru eleni yn ymweld â Bangor ar ddydd Gwener Mawrth 22ain a Sadwrn Mawrth 23ain yng Nghanolfan Pontio.



Cefnogaeth dydd ar gyfer unigolion sydd yn byw efo dementia cyfnod cynnar i ganolig. Ceir y gwasanaeth hwn ei gynnal yng nghartref galluogwyr y Cynllun am dal. Derbynnir ceisiadau trwy wasanaethau Oedolion, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwynedd a Môn. Rydym yn chwilio am allungwyr newydd i ddarparu y gwasanaeth yma.



## Galwch Draw

Cysylltwch â Medi Griffiths am fwy o wybodaeth.

Cyfeiriad: Cynllun Cysylltu Bywydau, Sywddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

Ffôn: 01758 704144


llooli.oedolion@gwynedd.llyw.cymru

## PEN Y CEUNANT ISAF

Y Bwthyn Té  
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa  
Llanberis  
LL55 4UW  
01286 872 606



# Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar

## Caerhun a Glasinfryn

### Cylch Glasinfryn

Bu cyfarfod blynyddol y Cylch yn y Ganolfan, bnawn Mercher 13 Chwefror. Cafwyd adroddiad am y flwyddyn ddiwethaf gan Jocelyn a diolch iddi am ei gwaith gofalus. Yr un yw'r diolch i Christina ein trysorydd am ei gwaith trylwyr.

Diolch i aelodau'r Cylch am eu ffyddlondeb a'u parodrwydd i gymeryd unrhyw orchwyl neu swydd i gadw'r Cylch bach yn rhedeg yn llwyddiannus. Dyma beth yw tîm da! Rhaid diolch i Mair am ei gofal drosom yn trefnu triapiau ac ymweliadau difyr.

Wedi trefnu'r rhaglen, sy'n argoeli'n dda, am y flwyddyn cawsom "de bach pnawn" - crempogau gan Mair a chacennau gan Carole. Diolch genod - lyfli!

Cawl a Chân fydd ar y rhglen mis nesaf gydag adloniant wedi ei drefnu

gan Marian Bryfdir. Dewch i fwynhau, byddwn yn falch o'ch gweld ar 13 Mawrth am 7yh yn y Ganolfan

### Cydymdeimlo

Ar 31 Ionawr bu farw Pamela Dunn yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ac o 1 Caerhun Cottages yn 86 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i gŵr, Harry a'r plant Mal, Terry, Julie a Gavin, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

### Dosbarth Qigong

Mae lle i fwy o aelodau yn y dosbarth Qigong sydd yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar nos Fawrth o 6.30 - 7.30yh. Mae Qigong yn ymarfer arweiniol i Tai Chi ac yn llesol iawn i bob math o broblemau iechyd. Os am brofi Qigong, mae'r sesiwn cyntaf am ddim, cechw mwy o fanylion gan yr athrawes, Jill Turner, rhif ffôn 351672

LLYFRGELL GYMUNEDOL DYFFFRYN OGWEN

yn cyflwyno:

ARDDANGOSFA

Tu Hwnt  
i'r  
Chwarel

19/03/2019 - 21/05/2019

Arddangosfa am gymunedau Dyffryn Ogwen a fu'n byw a gweithio ar ystâd y Penrhyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif

Noson Agoriad Swyddogol  
19/03/2019  
17:00 - 19:00

Amseroedd agor y Llyfrgell

Dydd Llun 14:00 - 18:30  
Dydd Mawrth 10:00 - 12:00  
Dydd Iau 14:00 - 18:00  
Dydd Gwener 14:00 - 17:00  
Dydd Sadwrn 10:00 - 12:00



# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn



Ffôn: 01248 352436 E-bost: [gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru)



## Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd  
Llandygái ☎ 600744

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Siân Morris, Arafon, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs. Myfanwy Morris, Tregarth, mam, nain a hen nain annwyl. Rydym yn meddwl amdanoch!

### Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mr. Helen Williams, Penrhiw, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau am adferiad buan i chwi!

### Eglwys St. Ann a St. Mair

Sul 1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. Boreol Weddi 2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. Cymun Bendigiad.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau. Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Cynhelir y "Ffair Basg" dydd Sadwrn, 13eg Ebrill rhwng 11 - 2 p.m.. yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái. Bydd lluniaeth ysgafn dros yr awr ginio ac amrywiaeth o stondinau yn ôl yr arfer.

## Modurdy Central

**M.O.T. ar gael  
Hefyd  
Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎601031**

## CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,  
cloeau, bachau, twll llythyrau ac  
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## Ysgol Tregarth

### Rhodd Ariannol

Braf oedd cael croesawu'r Tad John Mathews i'r ysgol yn ddiweddar a diolch iddo am ddod a newyddion da i ni. Roedd y Cyngor Ysgol wedi llythyru ag Ymddiriedolaeth Penrhyn, y Penrhyn Trust yn gofyn am gyfraniad i wella ardal allanol yr ysgol. Daeth y Tad Mathews atom i gyflwyno dwy siec, un am £500 i'r ysgol, ac un arall am £1000 o bunnoedd i Glwb Hwyl Tregarth sy'n cynnig gwasanaeth amhrisiadwy a gofal ar ôl oriau ysgol. Diolch iddyn am eu haelioni, mae gan y Cyngor gynllun clir ar gyfer y gwariant eisoes!



### Beth yw Cymru i ni?

Dyna ofynnwyd i ddisgyblion Dosbarth Ffrydlas yn ddiweddar. Wedi cryn ystyried, trafod a chasglu geirfa... dyma eu hateb!

Cymru yw..  
Draig, ddewr, ddoeth  
Sy[n ffyrnig a nerthol.  
Hi sy'n cynrychioli'r iaith Gymraeg hynafol.  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Mynyddoedd miniog, mawreddog,  
Sy'n ymestyn yn dalsyth, tlws a thrawiadol  
Yn gartref diogel i'n pobl.  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Yr Wyddfa, mynydd cawraidd, caregog  
Yn sefyll yn stond yn ei gartref - Eryri.  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Golygfeydd prydferth, anhygoel  
Yn rhyfeddol ac amryliw.  
Dyna ys Cymru i ni.

Cymru yw..  
Golygfeydd prydferth, anhygoel,  
Yn rhyfeddol ac anhygoel  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Cwm Idwal, creigiog, creadigol  
Llawnd hud ac antur  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Lobsgows a chawl cennin  
Bara brith a chacen gri,  
Iachus, maethlon a blasus,  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Cestyll cadarn, cawraidd  
Hanesyddol a llawn chwedlau.  
Ynddynt mae'n hanes ni.  
Clywn alwad Owain a Llywelyn.  
Arweinwyr, arwyr arbennig.  
Penderfynol, hyderus, balch a ffyrnig.  
Gwaeddw'n am eu hysbryd heddiw.

Cymru yw..  
Rygbi - ein gem genedlaethol.  
Peryglus, cynhyrfus, a brwnt!  
Dyna yw Cymru i ni.

Cymru yw..  
Yr anthem a'r faner a'r ddraig  
Yr iaith a'i siaradwyr.  
Calon ac enaid ein cenedl  
Dyna yw Cymru i ni.

Disgyblion bl 5 a 6. Dosbarth Ffrydlas

### PC Owain

Cawsom ymweliad gan PC Owain yn ddiweddar i addysgu plant y Cyfnod Sylfaen am yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned. Mae gan PC Owain ffordd arbennig o gyflwyno'i neges, ac mae'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Mi fydd PC Owain yn ymweld â'r ysgol eto yn ystod y tymor.

### Cymru Cwll

Rydym wedi bod yn mwynhau wythnos llawn egni a bwrlwm wrth ddathlu ein Cymreictod yn ystod Wythnos Cymru Cwll. Roedd yr wythnos yn llawn brwdfrydedd a gweithgareddau sy'n ceisio rhoi balchder i ddisgyblion am eu hiaith a'u cenedligrwydd. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dysgu am hanes Cymru.

### Cyngordd Dydd Gŵyl Dewi

Bob blwyddyn, bydd plant Ysgol Tregarth yn mwynhau dathlu dydd Gŵyl Dewi. Eto eleni fe benderfynodd yr ysgol gynnal prynhawn arbennig o de Cymreig a chân yn neuadd yr ysgol. Gwahoddwyd rhieni a theuluoedd i ymuno â ni i ddathlu. Roedd y neuadd yn orlawn a phawb yn sicr wedi cael gwledd o ganu, llefaru ac wrth gwrs bara brith a chacennau cri! Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi - rydym yn ffodus iawn.

I hysbysebu yn Llais Ogwan,  
(nev\_hughes@btinternet.com)

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe? © Dr J. Elwyn Hughes



## Cofio'r Carnifál (3)

Dyma droi'n ôl y tro hwn at hanes carnifál a oedd yn un o nifer yng nghyfres y 'Slate Queen Carnival', Gwaetha'r modd, does gen i ond un rhaglen yn unig, a gostiai dair ceiniog, a honno â'r geiriau hyn ar y ddalen flaen (o bedair): Tyn-Twr Youth Club, Bethesda ... 'Coronation Year ... Slate Queen Carnival and Sports ... Friday & Saturday, July 17<sup>th</sup> & 18<sup>th</sup>, 1953. Yna llun o ran o'r twll a'r ponciau yn Chwarel y Penrhyn - a llun gwael ar y naw ydi o hefyd! A'r rhaglen i gyd yn Saesneg yn unig!

O dan y llun, enwir R. G. F. Adlington, Tŷ Newydd, Bangor, yn 'President' ac Evan Parry, Cwlyn, yn 'Vice President'. Y tri Ymddiriedolwr oedd Huw Owen, Penrhiw, W. H. Ashton, Dolawen, Penisarnant, ac R. A. Lloyd, Plas, Penisarnant.

Mae'r ail ddalen i gyd yn sôn am y 'Sports' (a gynhelid ddydd Gwener, Gorffennaf 17) ac yn rhestru 25 o gystadlaethau: Dan 6 oed: 'Flat Race' (30 llath) i fechgyn a'r un fath i genod; Dan 8 oed: 'Bunny Race' (25 llath) i fechgyn a'r un fath i genod;

Dan 10 oed: 'Tyre Race' (40 llath) i hogia' a 'Skipping Race' i genod; Dan 10 oed: 'Flat Race' (25 llath) i fechgyn a'r un fath i genod; Y gwobrau yn y rasys uchod oedd: 1af: 9 ceiniog, Ail: 6d, 3ydd: 3d.

Dan 12 oed: 'Sack Race' (30 llath) i fechgyn a'r un fath i genod. Gwobrau: 1af: 1/-, Ail: 6d.

Dan 14 oed: 'Flat Race' (60 llath) i fechgyn a'r un fath i genod, a 'Wheelbarrow Race' (40 llath), agored i fechgyn a genethod).

Dan 16 oed: 'Flat Race' (100 llath) i fechgyn a'r un fath i genod; Y gwobrau dan 14 ac 16 oedd:

1af: 1/6, Ail: 6d.

Rhoddyd un wobwr yn unig, sef 2/-, ymhob un o'r cystadlaethau a ganlyn: Dan 20 oed: 'Flat Race' (100 llath) i fechgyn a'r un fath i genod; 20-30 oed: 'Flat Race' (100 llath) i ddynion a'r un fath i 'Ladies'; Dan 16 oed: Naid Uchel i fechgyn a genod (ar wahân); 16-30 oed: Naid Uchel i ddynion a merched (ar wahân); 'Dros 21 oed: Sack Race' (40 llath), cymysg; Agored: '3 Legged Race' (100 llath), mixed couples (open);

Doedd dim tâl cystadlu i rai dan 10 oed ond codwyd tair ceiniog ar rai oedd yn hŷn na hynny. Ni chynhelid cystadleuath pe bai llai na 3 enw wedi'u derbyn i gystadlu. Y ddwy oedd yn derbyn yr enwau (a hynny cyn Gorffennaf 15) oedd Doris Williams, 17 Gernant, a Brenda Williams, Mount Pleasant.

Ar drydedd dudalen y rhaglen, ac ar gyfer dydd Sadwrn, Gorffennaf 18, rhestrwyd 7 o gystadlaethau eraill y carnifál, dan amrywiol oedrannau: 'Best Original Character, Best Comic Character, Best Decorated Pram or Bicycle, Best Comic Pair (on foot), Best National Costume, Best Tableaux. Roedd barnu'r cyfan o'r rhain yn dechrau am 12.30pm ar y clwt o dir o flaen Ysgol Tyn-Twr a'r beirniaid oedd: Y Cynghorydd Mary Hughes, Gerlan, Mrs G. McCarter, Dolafon, Bethesda, Mr Roy Owen, Gerlan, a Mr Dellow, 5 Braichmelyn.

Yna, yn dilyn hyn, byddai'r 'Grand Carnival Parade' yn gorymdeithio i lawr y Lôn Bost, drwy'r Stryd Fawr at Ffordd y Stesion ac yna'n ôl at yr 'Ogwen Cinema' lle cynhelid seremoni coroni'r 'Slate Queen'. Y 'Parade Marshall' yn ôl y rhaglen oedd

'John Owen, Braichmelyn, ond tybiaf mai camgymeriad ydi hwn am John Morris - cymeraf fy nghywiros ydw i'n cyfeiliorni. A'r flwyddyn honno (1953), Norma Ashton oedd yn cael ei choroni gan Mrs Mansell Williams, Caernarfon. Codwyd tâl mynediad o 1/6 ar oedolion a 1/- ar blant.

Nos Sadwrn, yn Ysgol Tyn-twr, cynhaliwyd y 'Grand Carnival Dance', gyda thâl

mynediad o 2/-, a'r dawnsio i ddechrau am 8pm a dod i ben am 11.30pm.

Mae'n siŵr gen i fod atgofion yn llifo'n ôl i Norma (Griffith erbyn hyn) yn Abercaseg a thybed nad oes eraill a chanddyn nhw atgofion diddorol iawn am Garnifál 1953 a'r holl weithgareddau a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod yr achlysur arbennig hwn.

### STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976  
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

### Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



I hysbysebu yn Llais Ogwan,  
Neville Hughes 600853  
(nev\_hughes@btinternet.com)



## Ysgol Pen-y-bryn

### Dawns i Bawb

Bu blwyddyn 6 yn ffodus o gael gwersi gan Elin o gwmini "Dawns i Bawb" yn ddiweddar, a phinael y gwersi oedd cael perfformio o flaen y rhieni ar ddiwedd y chwe wythnos! Profiad a hanner!!

Ysbrydolwyd y ddawns gan y llyfr rydym ar hyn o bryd yn darllen "Gwydion and the Flying Wand" sy'n llawn hud a lledrith! Diolch o galon i Elin am eu dysgu mor wych.



### Cystadleuaeth Cogurdd

Aeth 11 o blant blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Dyffryn Ogwen ar Chwefror 14eg i gystadlu yng nghystadeuaeth coginio Cogurdd. Roeddynt yn cael 90 munud i baratoi a chyflwyno cebabs llyisiau gyda phesto



chartref. Bu pawb yn brysur iawn yn torri, mesur, cymysgu a chanolbwyntio o dan lygaid y beirniaid, Ceri Ogwen Jones a dwy o ddisgyblion TGAU Lletygarwch.

Roedd y platiau a gyflwynwyd yn ddigon o sioe, pob un yn flasus a lliwgar iawn; tasg anodd iawn i'r beirniad yn wir.

Lois Ryder o ddsbarth Glyder ddaeth yn fuddugol, a bydd nawr yn cynrychioli Ysgol Pen-y-bryn yn y rownd nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Holly o ddsbarth Elidir a ddaeth yn ail, yn ogystal a Iago a Liwsi a ddaeth yn gydradd drydydd.

Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso cynnes a gawsom eto ganddoch.

### Ymweliad Blwyddyn 6

Bu blwyddyn 5 a 6 yn ffodus o gael ymweld â'r Ysgwrn (Cartref Hedd Wyn) yn Nhrawsfynydd, fel rhan o'n gwaith am y Rhyfel Byd Cyntaf. Diddorol oedd clywed hanes y teulu, a gweld arteffactau o'r cyfnod. Yr uchafbwynt, heb amheuaeth oedd gweld y gadair ddu enwog, a chlywed am y gwaith cywrain o'i gwneud.

Ar y ffordd adref aethom heibio Llanystumdwy i ymweld a chartef a bedd Lloyd George.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cyfansoddi cerddi am fywyd yn y ffosydd, efallai y bydd bardd fel Hedd Wyn yn ein plith??!!



## SAMARIAID

Mac  
Llinell Gymraeg

# 0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

## Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw  
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

**ORIAU AGOR**  
Llun - wedi cau  
Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00  
Sadwrn 15:30 - 00:00  
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com  
01248 600219





## Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk

☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd  
Ffrydlas, Bethesda

☎ 601902

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Lucia Karaffova ac Osian Rhys Griffith, mab ieuengaf Iorwerth a Marian, Ffordd Pant a brawd Siôn a Hywel, ar enedigaeth eu mab, Steffan Maximilian Griffith, ddydd Llun, 11 Chwefror yn Ysbyty Mamolaeth Preston. Wyr cyntaf i Iorwerth a Marian a'r nawfed gor-wyr/wyres i Mrs Menai Jones, Tregarth.

### Ysbyty

Eto, bu sawl un yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cofion gorau atoch i gyd. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw gohebydd y Llais:- Mrs. Lillian Hughes, Erw las; Mr. Alan Morris, Rhos Coetmor; Mrs. Rita Harris, Bryn Bella; Mrs. Glenys Morgan, Maes Coetmor; Mr. Alan Puw, Cefn y Bryn.

### Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Megan Hartleb, 1 Ystad Coetmor a Llion Rhys, Caernarfon, ar enedigaeth eu mab, sef Noah Rhys. Mae'r teulu oll wedi gwirioni efo'r bychan. Hefyd, diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd.

### Penblwyddi Arbennig

Dathlodd dwy o'r Dyffryn benblwyddi arbennig yn ddiweddar, sef: Mrs. Edna Jones, gynt o Glanogwen, yn 90 mlwydd oed ar 24 Chwefror, a Mrs. Helen Jones, Ffordd Ffrydlas, yn 80 mlwydd oed ar 28 Chwefror. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a gobeithio i chwi gael diwrnodiau da!

### Marwolaeth

Mr. Edward Bryan Owen

Ar 30 Ionawr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Edward Bryan Owen, Maes Coetmor yn 81 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Hazel Owen a thad caredig i Kevin a Siân, a thaid a brawd hoffus. Bu'n aelod o Glwb Criced a Bowlio Bethesda am flynyddoedd. Bu'n aelod o'r pwyllgor ac yn drysorydd am sawl blwyddyn, ac yna yn llywydd y Clwb. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 8 Chwefror, yn Amlosgfa Bangor, dan arweiniad y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chwi fel teulu i gyd.

### Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn

i bedwar teulu am gyflwyno rhoddion er cof am anwyliaid tuag at waith Cyfeillion Ysbyty Gwynedd, sef cyfanswm o £3,635.00. Dyma'r teuluoedd caredig:- Teulu'r ddiweddar Mrs. A. Muriel Pritchard, Glasinfryn; Y diweddar Mr. Gilbert Bowen, Gerlan; Y diweddar Mr. Cledwyn Jones, Y Groeslon; Y diweddar Mr. Richard Rigby, Bangor.

### Gorffwysfan, Stryd Fawr

Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, 4 Chwefror, gyda Mrs. Rhiannon Efans yn y gadair. Yn bresennol 'roedd Falmai Davies, Rhiannon Efans, Dennis Dart, Dilwyn Owen, Owen John Evans, Vernon Owen, Edric Jones, Ann Fôn Williams, Dafydd Hughes, Elfed Bullock a Joe Hughes, ysgrifennydd. Cafwyd un ymddiheuriad sef Selwyn Owen.

Ar ôl croesawu pawb dymunodd y cadeirydd wellhad buan a chofion Gorffwysfan at yr aelodau sy'n sâl, sef: Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas, Mrs. Joan Griffith, Glan Ffrydlas, Mrs. Avril Griffiths, Rachub, Mrs. Christine Jones, Hen Ysgol a Mr. Vic Smith, Tregarth.

Cydymdeimlodd y cadeirydd â sawl teulu yn eu profedigaeth ddiweddar, gan nodi i'r clwb golli dau aelod ym mis Ionawr, sef Mr. Gilbert Bowen a Mrs. Margaret Owen. Estynnwyd cydymdeimlad at Mrs. Gwenda Bowen (colli ei phriod), teulu Mrs. Margaret Owen, Mrs. Ogwen Redfern (colli ei phriod), Mrs. Marlyn Jones (colli ei brawd), Mr. Len Williams (colli ei briod), Mrs. Ann Fôn Williams (colli ei mam). Safodd yr aelodau fel arwydd o barch a chydymdeimlad!

Darllenwyd cofnodion pwyllgor 10 Medi 2018.

Cafwyd adroddiad boddhaol o sefyllfa ariannol y clwb gan y trysorydd. Diolchwyd i'r trysorydd ac i Dennis am baratoi'r taflenni.

### Materion a drafodwyd

1. Bore Coffi 2019: Cadarnhawyd y dyddiad, sef 18 Mai yng Nghefnfaes.
2. Pêl Bonws: Gan fod sawl rhif ar gael, penderfynwyd cynnig rhifau i Mrs. Glenys Rowlands, Mrs. Ann Hughes a Mr. John Wyn Owen.
3. Gwibdeithiau 2019: Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd ar y teithiau canlynol:-  
Caer - 10 Ebrill; Skipton - 3 Gorffennaf;  
Pwllheli - 28 Awst; Lerpwl - 25 Medi;  
Marchnad Bury - 20 Tachwedd. Pob gwibdaith i gychwyn ger y Gofeb, Stryd Fawr.

### Etholwyd swyddogion 2019 - 2020

Cadeirydd - Rhiannon Efans.  
Is Gadeirydd - Falmai Davies.  
Trysorydd - Owen John Evans.  
Is Drysorydd - Vernon Owen.  
Ysgrifennydd - Joe Hughes.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod 2018 gan sawl aelod.

Apeliodd y trysorydd a'r is-drysorydd yn garedig am i'r aelodau dalu eu harian pêl bonws bob wythnos neu bob mis.

### Apel Morgan Hughes

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y bore coffi yn Caffi Coed y Brenin yn ddiweddar. Diolch i C.L Jones, Londis, Serena, Ann Jeanette, Eirwen Smith, Trends, Stermat, Tafarn y Bull. Hefyd, diolch i Brownwen, Linda, Sharon a Wendy am roi eu hamser. Casglwyd cyfanswm o £848.20

Bydd Noson Caws a Gwin yn cael ei chynnal yn y Bull am 7 o'r gloch, Ebrill y 5ed. Dewch yn llw. Tocynnau £2.50

### Cylch Meithrin Cefnfaes

*Ribidirew!*

Wel am bnawn Sadwrn yn llawn hwyl a gawsom yn Neuadd Ogwen gyda Deian a Loli o'r rhaglen deledu enwog. Cafodd y plant gyfle i gyfarfod y cymeriadau poblogaidd a chael cyfle i sgwrsio a thynnu llun gyda'r actorion Gwern Rhys Jones a (Deian) a Lowri Jarman (Loli).

Cynhaliwyd cystadleuaeth i'r plant wneud llun o'r ddau. Daeth Caren Brown draw i ddarllen stori. Roedd Angharad Morris yno gyda'i stondin Body Shop a stondin arall yn gwerthu nwyddau Deian a Loli a stondin deganau gan y Cylch ynghyd â raffl.

Gwnaethpwyd elw o £600 i'r Cylch a fydd yn hwb mawr yn ein hymdrech i godi arian er mwyn dyfodol y Cylch.

Braf oedd diwrnod o hwyl. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth draw helpu a chefnogi a diolch i Caren am roi ei hamser i ddarllen stori.



### Yr Eglwys Unedig

*Yr Ysgol Sul*

Heddwch y themâu'r tymor hwn ac mae'r plant a'r athrawon yn brysur iawn. Mae yn o'r plant yn rhoi'r emyn gyntaf yn oedfa'r bore ac yn gwneud eu gwaith yn rhagorol, diolch blant!

Mae'r baned ar ôl oedfa'r bore yn cael derbyniad ardderchog gyda nifer yn dod



am sgwrs. Diolch i'r merched sy'n gofalu.

Hefyd y baned fore Iau, mae pawb yn mwynhau cwmni ei gilydd. Rydym wedi cael oedfaon bendithiol iawn ac meant yn gwneud i ni deimlo'n ddiolchgar iawn ac yn hapus o gael bod yno.

Mae'r swyddogion yn brysyr gyda phwyllgor misol ac amryw gyfarfodydd. Diolch I bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r achos.

#### Cyhoeddiadau

Mawrth 17 – Miss Karen Owen  
Mawrth 25 Mr Richard Ll Jones  
Mawrth 31 Parch. G L Owens  
Ebrill 7fed Parch D. Rees Roberts  
Croeso i bawb i'r oedfaon.

#### Y Gymdeithas

Croesawyd pawb gan Joe ein Llywydd. Cyflwynodd Mr William Owen o Fangor sgwrs am bapur newydd 'Y Cymro'. Mwynhawyd yr hanes yn fawr iawn. Diolchwyd iddo gan Emyr ac am y baned ar y diwedd.

#### Eglwys Crist, Glanogwen

##### Gwasanaethau

Pob Bore Sul:  
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb

Pob bore Mercher:

Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.  
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

##### Y Garawys

Yn ystod tymor y Garawys, trefnir cyfarfodydd byr cyd-enwadol i ddilyn Llwybr y Groes. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn Eglwys Glanogwen pob nos Fawrth am 7 yr hwyr, o Fawrth 12 ymlaen. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y cyfarfodydd hyn.

##### Conffyrmasiwn

Ar Sul y Pentecost, Mehefin 9fed, bydd Esgob Bangor yn gweinyddu gwasanaeth conffyrmasiwn yn Eglwys St Mair, Tregarth. Os oes diddordeb gan rhai i gael eu conffirmio, cysyllter â'r Parchedig John Matthews ar 01248 364991 cyn gynted â phosib.

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**

**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth  
Amiwlans Gogledd Cymru**

## Cofio Rhiannon

Er cof annwyl am Rhiannon Rowlands, a hunodd 10 mlynedd yn ôl ar y 3ydd o Ebrill 2009, oddi wrth Arthur a'r teulu. Dyma soned gan dad Rhiannon, Harri Williams (Berth) fydd yn gysur i lawer un.

#### ATGOFION

Mor bell yn ôl yw'r dydd y cwrddais di,  
Mor felys ydyw cofio'r hapus hynt,  
Mae'r cyfan a fu'n nefoedd fach i mi  
Ar chwâl ers amser yn y pedwar gwynt,  
Ond er i amser leddfu peth o'r gwir  
Ar borfa hiraeth a'i atgofion fyrdd,  
Daw swyn y pell orffennol imi'n glir  
Am hen rodfeydd sy'n dal yn fythol wyrdd :  
Daw atgof am hen lwybrau drwy y coed  
Gerddasom gyda'n gilydd law yn llaw,  
Ein cysegredig fan i gadw oed  
A chainc y deryn du i'w glywed draw, -  
Mor bell yn ôl yw'r gwanwyn hwnnw im  
Mor drist yw'r atgof am dy hydref chwim.



**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**  
Yn arbenigo mewn trin gwallt  
merched, dynion a phlant.  
Cynghori, gosod a thorri wigiau  
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio  
(rasal "cut throat")



#### Annwyl Ddarllenwyr,

Oes gennych chi eneth wych neu ferch fedrus rhwng 5 a 9 oed yn eich teulu chi?

A hoffech chi weld ei henw wedi ei argraffu mewn print ar du fewn clawr llyfr?

Mae Genod Gwych a Merched Medrus yn cael ei gyhoeddi gan y Lolfa ym mis Mai 2019. Bydd hi'n gyfrol gyffrous, llawn dop o ffeithiau rhyfeddol a lluniau lliw, yn olrhain hanes 13 o ferched ysbrydoledig o Gymru, o'r byd cerddoriaeth, llên, hanes, seryddiaeth, gwyddoniaeth, celf, chwaraeon a llawer mwy!

Dyma gyfrol i ysbrydoli ac i addysgu merched bach Cymru heddiw.

I gael enw eich merch fach wych a medrus chi yn y llyfr, anfonwch e-bost at [genodgwych@gmail.com](mailto:genodgwych@gmail.com) cyn 18fed Ebrill 2019 gan nodi enw llawn eich merch.

(Nodwch fod y nifer yn gyfyngedig ac felly'r cyntaf i'r felin!)

Mawr ddiolch,  
Medi Jones-Jackson  
Awdur Genod Gwych a Merched Medrus



Trowch i'r dudalen ola ar gyfer hanes tim pêl droed Merched Bethesda

## Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda ☎ 600853  
Barbara Jones,  
1 Dol Helyg, Talybont  
☎ 353500

### Brysiwch wella!

Mae Mrs. Rhodwen Jones, 2 Cae Bach, wedi gadael yr ysbyty erbyn hyn, ac yn aros mewn cartref preswyl. Mae ei ffrindiau a'i chymdogion yn anfon dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan.

Nid yw John Evans, 6 Cae Bach, wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Brysia wella, John. Mae'n siŵr bod tywydd cynnes y dyddiau diwethaf wedi bod yn help iti.

### Diolch

Dymuna Eirlys Ellis, 20 Bro Emrys, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra yn ysbytai Gwynedd ac Eryri, ble cafodd ofal arbennig yn ystod y misoedd diwethaf.

Hefyd, diolch o galon i'w Gweinidog, y Parch. John Pritchard, am ei gymorth, a'r geiriau a fu'n gysur iddi ar amser anodd. Yr un modd, diolch i'w chyfeillion yn Eglwys Bethlehem am eu ffyddlondeb hwythau.



### Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau am iechyd da a phob dedwyddwch i Eirlys a John Draper, 70 Bro Emrys, ar eu priodas ar Chwefror 12fed.

Ac yn olaf, yr un yw'r diolch i holl Staff Plas Ogwen am eu croeso, a'u gofal ohoni yn ystod y mis a dreuliodd yno.

Mae Sister Bethan Griffiths, Ardudwy, Bro Emrys, hithau am ddiolch i bawb o'i chwmpas am eu caredigrwydd a'u gofal ohoni. Cysur mawr yw byw yng nghanol pobl gymwynasgar!

### Ymgynghoriad Cyhoeddus

Ar gais aelodau Cyngor Cymuned Llanllechid, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus

yn Ffestri Capel Bethlehem i wyntyllu barn trigolion y pentref parthed y cae pêl-droed, nad yw'n cael ei ddefnyddio, meddir, i'w lawn botensial.

Yn groes i'r tywydd anarferol o braf a gawsom yn ddiweddar, roedd nos Fawrth yn oer, yn wyntog ac yn wlyb. Er hynny, yr oedd Ffestri Bethlehem yn rhwydd lawn o bobl o bob oed.

Cafwyd cyfarfod bywiog, hwyliog a buddiol dan law gelfydd Meleri o Bartneriaeth Ogwen.

Hyfryd oedd clywed y plant

a'r bobl ifainc yn cynnig syniadau aeddfed a chall; pob un yn disgwyl ei dro i siarad, ac yn gwrando'n amyneddgar ar farn pawb arall. Roedd nifer dda o gynghorwyr yn bresennol, i'n hatgoffa mai 'Diwedd y gân ydi'r geiniog', ond calonogol iawn oedd ymateb y rhieni ifainc (ac eraill heb fod mor ifainc!) i wirfoddoli eu hamser, er mwyn i ambell syniad weld golau dydd. Amser, ac arian, a ddengys beth fydd yn bosibl, ond y farn gyffredinol ar ddiwedd y cyfarfod oedd bod Talybont yn le di-fai i fyw, a phawb yma yn barod iawn i helpu ei gilydd!

Diolch i drefnwyr y cyfarfod am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

### Llwyddiant

Mae nifer fawr o blant y pentref yn llwyddo'n ardderchog yn eu gwahanol feysydd, megis chwaraeon, drama, canu, chwarae offerynnau a myrdd o ddiddordebau eraill.

Daeth enw Gwenno Ashton Evans, 34 Bro Emrys, i'n sylw'r dydd o'r blaen, wedi iddi ennill Anrhydedd mewn arholiad Llefaru. Da iawn ti, Gwenno. Dalia ati!

Cofiwch roi gwybod inni, os bydd gennych newyddion tebyg i'r 'Llais'. Peth braf yw cyd-lawenhau mewn llwyddiant.

### Eglwys St Cross, Maes-y-Groes

*Gwasanaethau'r Sul:*

Mawrth 17eg, 9.45 a.m. -

Cymun

Mawrth 24ain, 11.00 a.m. -

Cymun

Mawrth 31ain (5ed Sul yn y mis) - dim gwasanaeth yn St Cross, ond gwahoddir pawb i wasanaeth ar y cyd yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, am 11 o'r gloch, neu yn Eglwys y St Ann a Santes Fair, Mynydd Llandegai am 10 o'r gloch.

Ebrill 7fed, 11.00 a.m. - Cymun  
Ebrill 14eg, 11.00 a.m. - Cymun yn ôl Estyniad (Sacrament Neilltuedig)  
Ebrill 21ain, 11.15 a.m. - Cymun Pasg  
Ebrill 28ain, 11.00 - Cymun

## THEATR BARA CAWS

# 'COSTA BYW'

Mae Cwmni Theatr Bara Caws, mewn cydweithrediad â Cwmni Tebot, yn falch o gyflwyno Costa Byw - rifyn hwyliog sy'n cyfuno'r dwys a'r digri ac yn dychmygu sut le fydd Gwynedd mewn blynyddoedd i ddod. Drwy lygaid cymeriadau niferus cewch weld canlyniadau ein difaterwch presennol wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o'u byd blêr nhw, a darganfod beth a'u harweiniodd nhw i fyw mewn byd o'r fath. Cewch ambell gip ar broblemau cyfoes - mewnfudo, diffyg swyddi, cost tai, gwleidyddion, newid hinsawdd, crîm egs yn mynd yn llai bob gafael, hyn oll a mwy. Ymunwch â ni i weld be'n union ydi a be fydd costa byw 'di mynd!

Dyma sioe berthnasol i bob cymuned yn yr oes ohoni gan dri dramodydd ifanc, lleol - Mari Elen, Mared Llywelyn a Llyr Titus.

### Yr Actorion:

Iwan Charles a Llyr Edwards  
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd

### Ar daith:

26 Mawrth - 13 Ebrill, 2019

NEUADD OGWEN Nos Fawrth  
26 Mawrth am 7.30

Trefnir gan Gymdeithas  
Ddiogelu'r Gerlan/Caban

Gellir cael tocynnau o  
Siop Ogwen -  
01248 208485 neu mynd  
ar wefan Neuadd Ogwen:  
[www.neuaddogwen.com](http://www.neuaddogwen.com)



*Cwrs Garawys:* 2.00 p.m. bawn dydd Mercher yn Eglwys y Sts Fair, Gelli, Tregarth: Mawrth 13eg, 20fed a 27ain; Ebrill 3ydd, 10fed, a 17eg

*Gwasanaethau'r Wythnos Fawr:* Dydd Iau Cablyd, Nos Iau Ebrill 18fed, 6.00 p.m. - Golchi traed neu ddwylo  
Dydd Gwener y Groglith: 9.45 a.m. - Gorymdaith Tystiolaethu o Eglwys St Tegai i Eglwys St Cross, ac ymlaen i Eglwys Sts Fair, Gelli.  
2.00 p.m. - Ffordd y Groes  
Dydd Sul y Pasg: 6.00 a.m. - Gwasanaeth ar godiad yr haul ym Maes Parcio Llyn Ogwen  
11.15 a.m. - Cymun Pasg, St Cross.

*Gwasanaethau'r Sul ym Mis Mai:*

Mai 5ed, 11.00 a.m. - Cymun  
Mai 12fed, 11.00 a.m. - Cymun yn ôl Estyniad (Sacrament Neilltuedig)  
Mai 19eg, 9.45 a.m. - Cymun  
Mai 16eg, 11.00 a.m. - Cymun

### Capel Bethlehem

*Oedfaon*

Mawrth 17: Parchg. Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.  
Mawrth 24: Gweinidog. (Oedfa Deuluol gyda phlant yr Ysgol Sul)  
Mawrth 31: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.  
Ebrill 07: Mr. D. Glyn Williams, Llandudno.  
Ebrill 14: Gweinidog.  
Ebrill 21, Sul y Pasg: Parchg. Cledwyn Williams, Bangor.  
Ebrill 28: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb. Ysgol Sul am 10 yb. Croeso i aelodau newydd.

*Diolch*

Mae Mr. Victor Jones, Bro Emrys, yn barod iawn i'n helpu pan fydd angen gwneud gwaith trwsio trydanol arnom yn y capel. Diolch yn fawr iddo am bob cymwynas!

*Gofalaeth Fro'r Llechen Las*

Jean Hughes a Neville Hughes, diaconiaid Bethlehem, fu'n cynrychioli'r eglwys yng nghyfarfod blynyddol yr Ofalaeth

## Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

Mehefin 8fed 2019

Testunau Gwaith Llaw

72. Eitem wedi'i wau â llaw (edafedd dwbl)
73. Eitem neu ddilledyn wedi'i wau â llaw (unrhyw edafedd)
74. Eitem o waith crosio
75. Eitem yn dangos clytwaith
76. Eitem yn dangos pwyth croes (agored)
77. Cerdyn cyfarch
78. Eitem yn defnyddio ffelt
79. Addurniadau ar gyfer coeden Nadolig (i fyny at 5 eitem)
80. Unrhyw eitem wedi'i wno
81. Baneri (dim mwy na 2 fedr o hyd)
82. Unrhyw eitem yn defnyddio botymau a /neu gleiniau
83. Clustog (unrhyw gyfrwng)
84. Unrhyw eitem o siâp calon
85. Unrhyw eitem yn defnyddio defnyddiau wedi'u hail gylchu
86. Nod Tudalen (unrhyw gyfrwng)
87. Unrhyw eitem o grefft o'ch dewis sydd heb fod yn y rhaglen uchod
88. Llawysgrifen - Cerdd o waith R. Williams Parry

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwyneth Morris - rhif ffôn: 01248 600596

a gynhaliwyd yng Nghapel Coch, Llanberis a nos Fawrth, 19 Mawrth. Gwnaed penderfyniadau pwysig, gyda'r saith eglwys yn gwbl gytûn yn eu hawydd i sicrhau dyfodol yr Ofalaeth dan weinidogaeth y Parchedig John Pritchard.

*Pwyllgor y Gymanfa*

Bu Barbara, Angharad a Neville yn cynrychioli'r Ysgol Sul mewn cyfarfod o Bwyllgor Cymanfa Dosbarth Bangor a Bethesda a gynhaliwyd yn festri Carmel, Llanllechid ar 18 Chwefror.

Penderfynwyd newid y drefn arferol a chynnal "Oedfa Ysgolion Sul" yn hytrach na Chymanfa. Bydd plant yr ysgolion Sul yn cymryd rhan a hefyd, yn cael eu gwobrwyo am eu gwaith a'u ffyddlondeb i'w hysgolion Sul. Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, byddwn yn edrych ymlaen at groesawu plant a theluoedd Ysgolion Sul y cylch atom ni i Fethlehem ar fore Sul, 19 Mai am 10.30.



## Sgwariau siocled a chneuen goco

*Cynhwysion*

300gram o siocled tywyll (70%).  
190g o siwgrwr (caster).  
190g o gneuen goco.  
3 ŵy wedi eu curo'n dda efo'r siwgrwr.  
200g o ffrwythau sych, er enghraifft syltanas.  
8 bricyllen (*apricot*) wedi eu torri'n fân.  
Pîn-afal sych (neu unrhyw ddewis arall).  
100g o geirios siwgrwr (*glace*) wedi eu chwarteru.

*Dull*

Cymysgwch y cwbl yn dda efo'r siwgrwr a'r wyau.  
Leiniwch dun swis rôl.  
Toddwch y siocled mewn powlen dros sosban fach o ddŵr berwedig (peidiwch â rhoi'r bowlen yn uwch na lefel y dŵr).  
Tywalltwch y siocled fel ei fod yn gyfartal yn y tun.  
Ar ôl iddo galedu, rhwch y cymysgedd yn llyfn ar ben y siocled.  
Rhowch o ynghanol y popty ar 150° (130° efo ffan) am 45 munud neu tan y bydd ei wyneb yn felyn.  
Ar ôl iddo oeri, torrwyd o yn sgwariau.

Mae'n gwneud 45 o sgwariau, ac maen nhw'n flasu iawn. Gellir eu cadw mewn tun am 2-3 wythnos.

Gellwch ddefnyddio ½ siocled tywyll a ½ siocled llefrith os dymunwch.

**L. Sturrs**  
**a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

**ADEILADWYR**

**Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda**

**Ffôn: 600953**

**lsturrs@googlemail.com**

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon (01248) 673616 Pwllheli (01758) 703000

## Carneddi



Dymuna Ela Lois, Ty Cerrig, Cilfodan ddiolch yn fawr iawn am yr holl negeson, cardiau ac anrhegion dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn ddiweddar. Mae Ela yn falch iawn o fod adef ac wedi cychwyn yn ol yn yr ysgol rhan amser bellach. Mae pawb wedi bod yn hynod o hael, diolch eto.

## Nant Ffrancon

Croeso Adef i Gwyn a Ros o fferm Blaen Y Nant, ar ôl 8 wythnos anhygoel yn teithio. Mi gychwynnodd nhw'r siwrne yn Singapore cyn mynd ymlaen i Seland Newydd, yna teithiwyd o gwmpas mewn camper van yn ymweld â ffermydd gwahanol a dod ar draws gwartheg duon cymreig yna!!

Ymlaen wedyn i Hawaii ac ynys Maui cyn symud ymlaen eto San Francisco ac yna adef ar Fawrth y 1af. Taith bythgofiadwy i'r ddau ond Pawb yn falch o'u gweld adef yn saff.



## JOHN ROBERTS



**Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650  
Ffôn: 01248 600995**

## Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus  
Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy  
Peiriant codi arian di-dâl  
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

## Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707  
GWASANAETH DYDD A NOS**

## Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,  
Bethesda ☎ 600689

### Croeso

Croeso i Angela a'r teulu i 2 Cefn Cwlyn, gobeithio eich bod yn hapus yno. Mae teulu bach arall wedi dod i fyw i 6 Gernant, sef Helen, Malcolm a Tomos, dymuniadau da i chi hefyd.

Trist yw cydymdeimlo a'r ddau deulu a fu mewn profedigaeth eisoes sef Dylan, Nia a'r teulu Glan Gaseg a Nici, Gareth a'r plant yn Llys Meurig. Bu iddynt golli tad, taid a Nain annwyl iawn sef Len Williams, Ffordd Gerlan ychydig wythnosau yn ôl colli ei briod Megan.

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
**RHIWLAS**

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Ymgymwrwr adeiladu a  
gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

☎ 01248 601052



DILYNWCH NI AR  
**TRYDAR**

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison



# Croesair Llais Ogwan

## AR DRAWS

- 1 Swnio fel enw pentref, ond un o'r perlyisiau coginio ydyw (7)
- 5 Mynd am dro ; " ----- lle gynt y rhedwn" meddai'r englynwr oedrannus (5)
- 8 Llwydaidd ei wedd (5)
- 9 Twt, fel pin mewn papur (7)
- 10 Os ewch yn ôl, mae mewn golwg i ddyn y manau uchel (7)
- 11 Dwy fraich, dwy goes, un olwyn ; cariwr hwylus (5)
- 12 Defnynnau galar a thristwch (6)
- 14 Mewn pobl ag urddas yn gweld arwydd o'r coed yn ail-eni (6)
- 17 I smwddio (*tafodiaith Arfon*) (5)
- 19 Dynes o Gaeredin, efallai (7)
- 22 Mae fel 10 Ar Draws (7)
- 23 Llythyr byr neu drawiad cerddorol (5)
- 24 Ffrog neu siwt (5)
- 25 Dyma fyddai nifer o rai fel 19 Ar Draws (7)

## I LAWR

- 1 Pennill syml ffwrdd-â-hi (5)
- 2 Nid yn ein hiaith ni y mae neges Aelod Seneddol ddryslud (7)
- 3 Mynegbost neu garreg filltir (5)
- 4 Digon i roi'r lliw tywyll yn yr enfys (6)
- 5 Cychwyn fel 1 Ar Draws i'r stumog ym Môn (7)
- 6 Ôl mewn dur fedr roi briw i chi (5)
- 7 Cwestiwn eto am yr anifail corniog wen, las, goch neu ddu (*cân*) (3,4)
- 12 Celfydd a medrus â'r dwylo (7)
- 13 Mae Guto Nyth Brân yn enwog -- ---- ras yn erbyn ceffyl (2,5)
- 15 Wedi ei eni (7)
- 16 Fel Caernarfon a Chonwy (6)
- 18 Y ddwy uchod yn 16 I Lawr (5)
- 20 Lliw brown wedi ei gymysgu i'w roi o flaen enw dyn (5)
- 21 Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (5)

## ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2018

**AR DRAWS** 1 Drwg, 4 Twyll, 8 Hwyrrol, 9 Gorfod, 10 Digwyddiadau, 11 Udodd, 13 Grôt, 16 Cymdeithaseg, 19 Talent, 20 Olewydd, 21 Soda, 22 Ufudd

**I LAWR** 2 Rownd, 3 Gwragedd, 4 Tylwyth, 5 Ysgrif, 6 Pryd, 7 Coluro, 12 Dociau, 13 Gostegu, 14 Melltio, 15 Athrofa, 17 Maen, 18 Glynu

Y camgymeriadau oedd 'Gordor' a 'Gormod' yn lle 'Gorfod' (9 Ar Draws), 'Ymgais' yn lle 'Ysgrif' (5 I Lawr), 'Dwylan' yn lle 'Dociau' (12 I Lawr), 'Ateb' yn lle 'Maen' (17 I Lawr) ac 'Ymateithasog' yn hytrach na 'Cymdeithaseg' (16 Ar Draws).

1		2		3		4		5		6		7
8						9						
10								11				
12				13			14			15		
17		18				19		20				21
22								23				
24						25						

Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion cywir i groesair Chwefror : Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Sian Beidas, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Gareth William Jones, Bow Street; Rhian Evans-Hill a John H. Evans, Llanberis; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; John a Meirwen Hughes, Abergele; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Dilys Parry, Rhiwas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Mair Williams, Gill King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas;

Gwenda Davies, Llanfairpwll; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Catherine Aran, Ann Morris, Bethesda; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont.

Yr un sy'n mynd â'r wobwr y mis yma am atebion hollol gywir ydi Gwyneth Jones, Y Bwthyn, 6 Waen Wen, Glasinfryn, Bangor LL57 4UF.

Atebion erbyn 5ed Ebrill, 2019 **fan bellaf** i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 5<sup>ed</sup> Ebrill i 'Croesair Mawrth'  
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

## Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Roedd ysgoldy Capel Carmel yn orlawn pan groesawyd Dr. John Llywelyn Williams draw yno i sgwrsio am 'Barc Archeolegol Rachub'. Buan iawn y sylwedolwyd ein bod yn byw mewn ardal o bwys archeolegol arbennig, gydag olion o'n hamgylch ymhobman sydd yn unigryw mewn cyd-destun Prydeinig yn ogystal a Chymreig.

Dangoswyd cyfres o fapiau ac awyr-luniau diddorol a oedd yn canolbwyntio ar leoliadau 'cyn-hanes' yn yr ardal, e.e. mapiau manwl y Parch. Elias Owen o olion clystyrau o dai crynion a buarthau o'u hamgylch mewn llefydd fel Bwlch Molchi a Waun Bryn, a ffotograffau o 'Gylch Allt Goch' a 'Phen y Gaer' Carneddi.

Mae'n bosib fod y cymunedau'n byw yn yr ardal o tua 800 C.C. hyd at 5 O.C., ond a wnaed unrhyw ddarganfyddiadau amlwg o greiriau fel llestri a.y.y.b. ar y safleoedd hyn? Yn anffodus, naddo, - ond nid yw hyn yn golygu mai cymdeithas dlawd ansoffistigedig oedd yn byw ar lethrau ein hardal.

Nid ar chwarae bach y byddai pobol wedi gallu adeiladu yr hyn a wnaethant, - wedi'r cwbl, roedd pob 'clwstr' yn dilyn yr un math o batrwm, felly roedd yn debygol iawn fod trefn arbennig i fywydau'r trigolion.

Roedd yn braf derbyn cyfraniadau gan wahanol haneswyr yn ystod y cyfarfod, sef y cyflwyniad gan Dr. J. Elwyn Hughes, gwybodaeth am y Parch Elias Owen gan Gadeirydd y Clwb Mr. Dilwyn Pritchard, a chefnidir tarddiad enwau lleol fel Bwlch Molchi a Bodfeio gan y Prifardd Ieuan Wyn. Cyfeiriwyd hefyd at y diweddar Mrs Annie Rowena Jones, a'i chyfraniad arbennig i hanes yr ardal, yn enwedig hanes Eglwys Llanllechid.

Diolch yn fawr Dr John Llywelyn Williams am gyfarfod gwych! Bydd y cyfarfod nesaf [Mawrth 27] dan ofal y Prifardd Ieuan Wyn, a fydd yn sgwrsio am 'I Ben Lôn Bronnydd'.

# Nyth y Gân

## Gwyllo Naid y Brithyll

O! am lecyn i ymlacio; pesgi  
Mae'r pysgod o neidio;  
Hyn yw eu trefn yn eu tro,  
O'r pryfed y daw'r prifio.



## Mwsog

Yn ei fan cynefinodd, yn gorwedd  
Ar garreg y tyfodd,  
Ac yno'n hir sugno nodd  
Ar wyneb oedd mor anodd.

## Mwyalchen y Gwanwyn

Anfarwol ei arferion o ganu  
Yn gynnar mor ffyddlon;  
Deryn du â'i dirion dôn  
Yw'r golud ddaw i'r galon.

## Machlud

Y porffor yn lliwio'r llwyn; yr awel  
A'r ewyn yn addfwyn,  
Ac ar riniog y clogwyn  
Marian a'r mor yn aur mwyn.

*Dafydd Morris*

\*\*\*

## Bywyd

Afon lydan aflonydd yw bywyd  
Gyda'i beiau beunydd;  
Byr yw oes a'i dyddiau'n brudd:  
O hynny daw llawenydd.

## Mawl i'r Haf

Ar y Foel  
daw haul  
i gysgu ar ei glin.

Awel yn lledu ei ffedog  
ar draws caeau cain,  
a dail ir fel dwylo  
â'u bysedd gleision  
yn anwesu'r coed.

Adar gwlad ar adain;  
melyswin eu cân  
yn meddwi'r llwyni llaes.

Alaw ffrwd  
yn llithio'r brwyn  
yn ôl hen ddefod yr oed  
o dan goed y glyn.

Blodau pren yn gwenu  
ar y gweunydd,  
a gwawn yn sgleinio fel syltau  
ar ruddiau'r llwyn.

Dyma fel y daw  
haf ei hun  
Yn ôl i Ben Braichmelyn.

*Goronwy Wyn Owen*

\*\*\*

## Seren y Gweithiwr

(Y seren Arcturus, sy'n cyfodi ym mis Ionawr ac yn dod i'w hanterth ganol haf. Yr adeg honno, hi yw'r seren gyntaf i ymddangos gyda'r hwyr, yn union uwchben, felly gelwid hi'n Seren y Gweithiwr, gan ei bod yn arwyddo diwedd y dydd a'i waith.)

Glöynen llawn goleuni - ar orwel  
Uwch yr eira'n llosgi;  
Seren flaenaf haf yw hi,  
Gwreichionen goruwch inni.

*Howard Huws*



### Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost:  
admin@cslfarm.com,

Ein gwefan:  
www.cslfarm.com



## Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Diolchiadau i'r cynghorwyr Godfrey Northam a Paul Rowlinson a sicrhaodd bin newydd yn Sgwar Rachub, a llenwi'r tyllau ffordd ger 14 Ffordd Tanybwlech a ger mynedfa y Clwb Criced a Bowlio.

Y mae Comisiwn Ffiniau Cymru wedi awgrymu tair ward sirol yn ardal Cyngor Cymuned Bethesda yn lle'r ddwy ward bresennol ac un ohonynt yw Ward Rachub a fydd yn ymestyn o Gae Rygbi Bethesda i Ffordd Y Mynydd, gyda'r ffin deheuol ar hyd Lôn Newydd Coetmor.

Caewyd rhan o Lôn Bach Odro yn ystod gwaith adeiladu yn cyn safle Grey Motors dros ffordd i Blas Ffrancon a chaewyd gwaelod Stryd Fawr Rachub er mwyn i'r bwrdd dwr gwneud gwaith angenrheidiol.

Ni fu gwerthiant Canolfan Rachub yn llwyddiannus ac felly bydd hi'n ôl ar y farchnad eto. Sicrhaodd cynghorwyr Ward Rachub y bydd maes parcio'r ganolfan yn aros fel y mae ac y bydd o'n cael ei drosglwyddo i Gyngor Cymuned Bethesda wedi i'r ganolfan gael ei gwerthu.

Y mae'n dda gennym glywed bod tim pêl droed ieuenctid y gymuned wedi dechrau defnyddio cae pêl droed Ysgol Llanllechid eto. Creuwyd giât gan yr ysgol yn ffens Lôn Bach Odro ar ddechrau'r ddegawd i hyrwyddo hyn.

Dymuniadau da i Gareth Williams, Llwyn Bedw efo'i driniaeth feddygol a fydd yn golygu llawer o deithio yn ystod yr wythnosau nesaf.

### Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb ar brynhawn Mercher Chwefror 13. Croesawodd y llywydd pawb i'r cyfarfod. Rhoddwyd gair o goffadwriaeth am y diweddar Margaret Owen. 'Rydym wedi colli ei gwasanaeth fel trysorydd o'r clwb am nifer o flynyddoedd. Gofynwyd i bawb sefyll er coffadwriaeth amdani.

Braf oedd gweld Margaret Rees Williams yn ôl ar ôl cael cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda i Arfona ar ei phenblwydd yn ddiweddar, ac arfonwyd ein cofion at Myfanwy sydd yn Plas Ogwen, ac wedi cael ei phenblwydd dechrau Ionawr.

Mae ein meddyliau hefo Glenys Rowlands - ei chwaer yn wael yn Ysbyty Glan Clwyd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rita a Medi oedd ddim yn dda ar y pryd.

Rhoddwyd y te gan Vera a Ceinwen. Rhoddwyd y raffl gan Ceinwen ac Arfona yn ennill.

Ein siaradwr oedd Mr Gwyn Burgess a soniodd am hanes ei dad a fu yn garcharor rhyfel yn Japan. 'Roedd pawb wedi mwynhau yr hanes diddorol.

### Capel Carmel

*Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*

Mawrth 17: Parchg. Dewi T. Morris.

Mawrth 24: Y Gweinidog.

Mawrth 31: Parchg. Gwynfor Williams.

Ebrill 07: Y Gweinidog (Cymun)

Ebrill 14: Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam.

Ysgol Sul am 10.30yb.

Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30.

Te Bach. Dydd Llun, Mawrth 25. (2.30 - 4.00yp.)

Croeso cynnes i bawb.

### Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

"Hanes Cynnar Comin Llanllechid" oedd testun darlith ddifyr, llawn gwybodaeth a draddodwyd i'r aelodau yng nghyfarfod mis Chwefror. Y cyflwynydd oedd yr actor enwog, Wyn Bowen Harris, sydd hefyd yn gyngorydd ar Gyngor Cymuned Llanllechid ers sawl blwyddyn bellach! Dyma lun ohono gyda Wyn Roberts, llywydd y Gymdeithas, ar ddiwedd y noson.



**CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID**  
**Nos Fercher, Mawrth 27**  
 am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.  
 Bydd sgwrs gan Y Prifardd Ieuan Wyn, -  
 'I Ben Lôn Bronnydd'  
**CROESO CYNNES!**

### PANTO LLECHEN LAS

Welsoch chi y panto eleni? Panto Llechen Las hynny yw. A fuasech yn hoffi ymuno yn yr hwyl? Hoffech chi ganu, actio, helpu tu ôl i'r llwyfan, oes gennych sgiliau technoleg? Os ydych yn ateb yn gadarnhaol yna ymunwch â ni yn Neuadd Ogwen

**Nos Iau Mawrth 21ain am 7:30.**

## Clwb Dwylo Pysur

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. Bryan Griffith ar nos Wener, 22 Chwefror. "Cariad" ydi'r thema sydd wedi bod gennym ni yn y clwb yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mi wnaeth Bryan ddangos i'r bobol ifanc sut i dorri siâp calon ar "lino" ac yna ei brintio ar bapur. Mi wnaethon nhw droi allan yn ardderchog! Mi fyddan ni'n eu lamneiddio nhw rhywbryd eto a'u hongian nhw o gwmpas yr Ysgoldy. Diolch i Bryan!

Dyma rai o'r bobol ifanc gyda Mr. Bryan Griffith.





# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Chwefror cynhaliwyd cyfarfod misol Plaid Lafur Arfon ym Mangor i dderbyn a chymeradwyo adroddiad gan y pwyllgor gwaith; ac i drafod dau gynig a gafodd eu cymeradwyo, sef "I alw ar bwyllgor gwaith cenedlaethol Prydain I newid y gweithdrefnau I gynnwys hawl adolygiad Chakrobari" ac "I beidio a newid nifer o seddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru nes bod nifer y seddau yn San Steffan yn newid ac yna i ystyried cael dwy sedd Gymreig ar gyfer pob sedd yn San Steffan."

Yng nghanol y mis cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Ymgyrchu Arfon ger Llanberis I roi trefn ar ymgyrchu ac I ddechrau ystyried etholiadau nesaf Cyngor Gwynedd. Bu ein hymgeisydd seneddol (Mary Gwen) a nifer o'u helpwyr yn canfasio ac yn dosbarthu taffenni yn Maesgeirchen.

Tua diwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Fforwm Polisi Arfon yng Nghaernarfon i drafod syniadau ar gyfer maniffesto etholiadau nesaf Cynulliad Cymru ac fel yn ddau achlysur uchod, bu nifer o aelodau Dyffryn Ogwen yn bresennol.

Cynhelir cyfarfodydd o Ferched Llafur Arfon ar fore Sadwrn cyntaf bob mis, Plaid Lafur Dyffryn Ogwen ar yr ail Nos Fercher bob yn ail fis (gan ddechrau yn mis Medi) a Phlaid Lafur Arfon ar yr ail Nos Wener bob mis. Nid oes cyfarfodydd yn mis Awst.

## DAFYDD CADWALADR

### Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

01248 605207

## Arbenigwr mewn lloriau coed caled


**A.G.L.**  
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

# CHWILAR



## Cymeriadau Pobol y Cwm

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG CYMERIAD SYDD YN YMDDANGOS YN POBOL Y CWM i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn EBRILL 1af. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Eto'r mis diwethaf daeth nifer o atebion Ionawr yn hwyr trwy'r post, ac roeddwn wedi anfon chwilair Chwefror ymlaen i'r golygydd. Gwnewch yn siwr eich bod yn anfon eich atebion ymlaen rhai dyddiau

cyn dyddiad cau y gystadleuaeth. Enwau rhai o gymeriadau o rhaglen Pobol y Cwm sydd i'w darganfod y mis yma, pob lwc.

**Dyma atebion Chwefror :-** Bwrdd; Cadair; Carped; Cwpwrdd; Cyfrifadur; Gwely; Llestri; Meicrodon; Oergell; Peiriant Golchi; Stof; Teledu. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Bowen, Gerlan; Mair Jones, Bethesda; Olive Williams, Maes y Garnedd; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Alwyn Rowlands, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Barbara Anne Conlan, Glanogwen.

**Enillydd Chwefror oedd:-** Elfed Bullock, 8 Maes y Garnedd, Bethesda.



## William Parry (Bwtsiar)

Daeth atebion Chwilair Ionawr i law yn ystod mis Chwefror, a derbyniasis gynnig Mrs G. L. Jones, o Windsor, Berks, yn ogystal â llythyr yn adrodd hanes ei thad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ar ôl diwedd y Rhyfel. Dyma, gyda'i chaniatâd, gynnwys y llythyr.

"Cyfarchion o du draw i Glawdd Offa, gan Howget! Mair Parry, merch "Parry Bwtsiar" dwi, ac er mod i wedi gadael Bethesda ers 1962, merch o 'Pesda fyddai byth! Rydwi yn derbyn Llais Ogwan bob mis ac wedi bod yn darllen hanes yr hogia lleol a fu farw'n ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd Dad wedi ymuno a'r Welsh Fusiliers ac fe gafodd ei anafu'n ddifrifol yn ystod "Allenby's March on Jerusalem", Tachwedd 1917. Wedi cerdded ar draws Ffrainc i Toulouse, roedd ar y llong Transylvania a gafodd ei thorpido ger Genoa. Achubwyd 400 o'r milwyr gan y trigolion. Danfonwyd hwy yn ôl i Marseilles, ac yna eu danfon yn ôl neu i Alexandria ar long arall.

Cafodd fy nhad ei anfon i Mosley Hill Military Hospital, ac 'roedd yno tan Mawrth 1919. Bu i mewn ac allan o'r ysbyty tan 1941-42. Ces i, fy mrawd

a'm chwaer ein geni yn Isgoed, Ffordd Bangor. Yn Cae Star, Ogwen St. 'roedd Dad yn byw gyda'i fam nes iddo briodi. Rwyf wedi trio cael mwy o hanes fy nhad yn ystod y Rhyfel, ond cafodd llawer o ddogfennau eu dinistrio yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Tybed oes ryw faint o hanes hogia eraill o Fethesda a ddaeth yn ôl er gwaetha popeth, ar gael yn lleol? Aeth ei frawd Thomas i Ffrainc hefyd, eitha posib i'r Somme, ac anfonwyd ef i Kent "Garden of England" gan fod yr aer yno yn well i'w helpu i anadlu - ar ôl y nwy mae'n debyg. Ddaeth o byth yn ôl i Bethesda. Falla bod hyn o ddiddordeb i rhai o ddarllenwyr y Llais a oedd yn cofio 'Willie Parry Bwtsiar'. Cofion, Mair Jones (Parry)."

Daeth llythyr Mrs. Jones ag atgofion yn ôl i mi hefyd, gan fy mod wedi rhwymo llawer o lyfrau i'w thad pan ddechreuais weithio fel rhwymwr llyfrau yn y Brifysgol ym Mangor, lawer blwyddyn yn ôl bellach. Byddai wrth ei fodd yn dangos ei gwningod sioe i mi yn ei sied, pan fyddwn yn dychwelyd y gwaith iddo. Diolch i chi Mrs Jones.

(Andre Lomozik)

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY



### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym  
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi  
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau  
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



### Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

#### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



### Hywel Williams

Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

#### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853



Manylion Cyswllt  
Cynghorwyr Sir  
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn  
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái  
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda  
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes  
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

Facebook: @CynghorwyrDyffrynOgwen

Twitter: @PlaidCymruOgwen

## JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NE  
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:  
**01248 601754**  
07770 568743 (symudol)





# Chwaraeon

## Tîm Pel-droed Merched Bethesda yn Llwyddo



**Y**n 2018 Roedd ysgrifennydd y clwb Gareth Jones yn awyddus cael tîm merched ym Methesda. Roedd trafodaeth rhwng Stephen Jones, sydd bellach yn hyfforddi'r merched, Katie Midwinter, capten y tîm a'r pwyllgor a dechreuwyd sesiynau ymarfer ym mis Awst.

Cyhoeddwyd neges o'r sesiwn gyntaf ar dudalen Facebook y clwb, ond ddim ond 5 o ferched ddaru fynychu'r sesiwn gyntaf. Oherwydd y diffyg diddordeb roedd teimlad anobeithiol ac amheuaeth a ellid cychwyn y fenter newydd.

Ond, o fewn ychydig o wythnosau roedd pethau yn dechrau edrych i fyny gyda lwc roedd digon o genethod ar gael i chwarae gem gyfeillgar yn erbyn Pwllheli. Daeth nifer lawr i gael cip-olwg ar y tîm yn eu ymddangosiad cyntaf, gyda

ychydig o genethod y pentref yn chwarae sef Katie Midwinter, Chloe Hughes, Jenna Allsup, Cara Aston, Cerys Thomas a Shauna Gray.

Curodd Pesda y gêm 5-0 yn erbyn Pwllheli, tîm o Adran 1 cynghrair Gogledd Cymru. Roedd hyn yn sioc mawr I nifer, ond roedd teimlad fod rhywbeth arbennig yn mynd I ddigwydd gyda'r criw yma. Ymunodd Pesda a'r gynghrair sef Adran 2 o Cynghrair Gogledd Cymru a teithwyd i Rhyl am eu gêm gyntaf.

Aethon gôl I lawr yn ystod cyfnod gyntaf y gêm. Ond, gorffennod y gêm 5-1 i genod Pesda diolch i goliau gan Chloe Hughes, Holly Beddall a tair gan Katie Midwinter. Erbyn hyn, ar ôl 8 gêm mae Pesda yn eistedd ar frig y gynghrair wedi ennill pob gêm. Mae'r dyfodol yn ddisglair I bel-droed merched yn yr ardal, gyda tim

dan 10 a dan 12 genethod ym Methesda erbyn hyn.

Dymunai'r Clwb ddiolch am y gefnogaeth yn ystod y tymor ac i bawb am eu gwaithddiflino gyda'r timau i gyd! Croeso cynnes i chwaraewyr newydd ymuno neu wirfoddoli gynorthwyo yn y Clwb. Hoffym hefyd ddiolch i pawb sydd wedi ein noddi ynenwedig i Cwrw Ogwen a Gwasanaeth Chynnal a Chadw Gaerwen.

Y canlyniadau hyd yn hyn: Rhyl Development 1 Bethesda Athletic 5 (Holly Beddall, Chloe Hughes, Katie Midwinter 3)

Bethesda Athletic 12 (Ffion Roberts 6, Awel Ellis 2, Shannon Jones 2, Angharad Evans, Holly Beddall) Penrhyn Bay 0

Corwen 2 Bethesda Athletic 4 (Katie Midwinter 3, Hannah McGoona)

Bethesda Athletic 2 (Ceri Lois, Katie Midwinter) Wrexham 1

Cwpan NEWFA Bethesda Athletic 2 (Holly Beddall, Katie Midwinter) Rhyl Development 1

Cynghrair Mountain Rangers 1 Bethesda Athletic 12 (Hannah McGoona 4, Katie Midwinter 4, Ceri Lois 3, Awel Ellis)

Bethesda Athletic 2 (Katie Midwinter pen, Ceri Lois) Amlwch Town 1

Bethesda Athletic 4 (Katie Midwinter 2, Ceri Lois, Shannon Jade Jones) Rhyl Development 2

Bethesda Athletic 4 (Chloe Hughes, Ffion Roberts, Shannon Jones, Katie Midwinter) Mountain Rangers 1